


# Ysgolion Bro

Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru Rhif: 34/2003

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Rhagfyr 2003

Dogfen  
Wybodaeth



Rheoli a  
Llywodraethu  
Ysgolion



[www.dysgu.cymru.gov.uk](http://www.dysgu.cymru.gov.uk)  
[www.learning.wales.gov.uk](http://www.learning.wales.gov.uk)

Adran Hyfforddiant ac Addysg  
Department for Training and Education



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

<b>Teitl y ddogfen:</b>	Ysgolion Bro
<b>Cynulleidfa</b>	Cyrff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru; Awdurdodau Lleol; Undebau Athrawon ac Undebau eraill; Awdurdodau Esgobaethol Eglwysig; Cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg.
<b>Trosolwg:</b>	Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad ar gyfer ysgolion a'u partneriaid allweddol ar sut y gallant ddatblygu a darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned.
<b>Gwybodaeth Bellach:</b>	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Mrs Lyn Summers Ffôn: 029 2082 5959, Ffacs: 029 2082 6111, e-bost: Lyn.Summers@wales.gsi.gov.uk neu yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod.
<b>Copïau ychwanegol</b>	Gellir cael copïau ychwanegol gan: Mr Alan Chapple Ffôn: 029 2082 6052, Ffacs: 029 2082 6111, e-bost: Alan.Chapple@wales.gsi.gov.uk, yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu o wefan y Cynulliad <a href="http://www.dysgu.cymru.gov.uk">www.dysgu.cymru.gov.uk</a>  Is-adran Rheolaeth Ysgolion Adran Addysg a Hyfforddiant Llywodraeth Cynulliad Cymru Adeilad y Goron Parc Cathays CAERDYDD CF10 3NQ
<b>Dogfennau Cysylltiedig:</b>	Deddf Addysg 2002 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 Deddf Addysg 1996 Deddf Safonau Gofal 2000 Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Darpariaeth Gofal Dydd Llawn, Gofal y Tu Allan i'r Ysgol, Meithrinfeydd a Chwarae Mynediad Agored

# CYNNWYS

<b>Adran</b>	<b>Tudalen</b>
Crynodeb	2
Adran 1: Cyflwyniad	3
Adran 2: Cefndir Cyfreithiol	6
Adran 3: Gweithgareddau a Gwasanaethau	8
Adran 4: Ymgynghori a Chynllunio	14
Adran 5: Materion Ymarferol	18
Adran 6: Materion Ariannol	26
Adran 7: Beth yw'r camau allweddol?	31
Adran 8: Cysylltiadau Defnyddiol	33

# YSGOLION SY’N CANOLBWYNTIO AR Y GYMUNED

## CRYNODEB

Rhydd Adrannau 27 a 28 Deddf Addysg 2002 bwerau i gyrff llywodraethol ddarparu gwasanaethau i helpu i ddiwallu anghenion eu disgyblion, eu teuluoedd a’r gymuned ehangach. Mae’r cylchlythyr hwn yn darparu arweiniad ar gyfer ysgolion a’u partneriaid allweddol ar sut y gallant ddatblygu gwasanaethau o’r fath.

Mae’n cwmpasu:

- yr hyn a olygir gan ysgol sy’n canolbwyntio ar y gymuned a’r manteision cysylltiedig (Adran 1);
- y cefndir cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol (Adran 2);
- y mathau allweddol o weithgareddau a gwasanaethau y gallai ysgol fod am eu darparu (Adran 3);
- y partneriaid allweddol y mae angen eu cynnwys ac y mae angen ymgynghori â hwy (Adran 4);
- y materion ymarferol sydd ynghlwm â darparu gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol (Adran 5);
- y materion ariannol sydd ynghlwm â darparu gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol (Adran 6);
- a’r camau allweddol a allai fod o gymorth i ysgolion wrth ddatblygu’r uchod (Adran 7).

Daeth Adrannau 27 a 28 Deddf 2002 i rym ar 1 Medi 2003 yng Nghymru. Mae statws yr arweiniad yn anstatudol ac eithrio Adrannau 3.2 i 3.8 (gofal plant) ac Adran 4 (Ymgynghori a Chynllunio) yn ei chyfanrwydd. Wrth weithredu’r pŵer o dan Adran 27(1) neu wrth ymgynghori o dan Adran 28(4) Deddf Addysg 2002, dylai ysgolion ystyried y rhannau hyn o’r cylchlythyr.

Mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau i’w cymunedau. Mae’r arweiniad yn rhoi cyngor ar sut y gall ysgolion adeiladu ar y gwasanaethau hyn. Cyfrifoldeb yr ysgolion eu hunain, drwy ymgynghori â’u partneriaid, fydd datblygu darpariaeth o faint priodol ar gyfer eu cymuned o ystyried yr amgylchiadau.

## Adran 1: Cyflwyniad

**1.1** Mae gan ysgolion ran bwysig a chanolog i'w chwarae yn y gymuned. Yn ogystal â darparu addysg i ddisgyblion a chreu ysbryd cymunedol ymhlith rhieni, mae gan ysgolion hefyd y cyfle ac, yn aml, y cyfleusterau i ddarparu ar gyfer y gymuned gyfan.

### Beth yw ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned?

**1.2** Mae ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn ysgol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ledled Cymru, mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol gan gynnwys addysg i oedolion, cymorth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol.

**1.3** Nod y cylchlythyr hwn yw rhoi arweiniad i ysgolion a'u partneriaid ar sut y gallant ddatblygu eu darpariaeth bresennol ac ystyried pa wasanaethau neu weithgareddau ychwanegol y gallent eu cynnig. Nid oes glasbrint ar gyfer y mathau o weithgareddau y gall ysgolion eu darparu, nac ar gyfer sut y gellid eu trefnu. Gan gydweithio â phartneriaid lleol, gall ysgolion ddatblygu darpariaeth o faint priodol ar gyfer eu cymuned eu hunain.

**1.4** Mae'n bwysig i'r ysgol gydweithio'n agos â'i hawdurdod lleol. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio cymunedol ac maent hwy eu hunain yn darparu neu'n hwyluso amrywiaeth eang o wasanaethau. Mae'r awdurdod lleol mewn sefyllfa unigryw i ddarparu cyngor ar y ddarpariaeth bresennol yn ei ardal. Gall gynnig cymorth a chyfeirio'r ysgol tuag at y rhannau hynny o'r awdurdod lle y ceir arbenigedd ym maes datblygu cymunedol neu wasanaethau penodol.

**1.5** Mae Adran 27 Deddf Addysg 2002:

- yn ei gwneud hi'n haws i gyrff llywodraethol ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau sydd o fudd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned leol;
- yn darparu hyblygrwydd i gyrff llywodraethol drefnu cytundebau gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau yn yr ysgol;
- yn galluogi gyrff llywodraethol i godi tâl am rai gwasanaethau.

**1.6** Waeth beth fydd maint y ddarpariaeth, bydd yn bwysig wrth gyflwyno datblygiadau cymunedol i uwch dîm rheoli a chorff llywodraethol yr ysgol nodi aelod penodol yr un i fod yn gyfrifol am y maes gwaith hwnnw. Ni ddylai unrhyw weithgareddau newydd ychwanegu at faich gwaith presennol staff yr ysgol, yn cynnwys penaethiaid, heb iddynt gytuno i hynny (gweler paragraffau 5.4 i 5.9 ar staffio).

### Beth yw'r manteision?

**1.7** Nododd yr adroddiad ar gam cyntaf y Prosiect Lleihau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002, ffactorau allweddol a oedd yn cyfrannu at lwyddiant ysgolion sy'n gweithio o dan amgylchiadau heriol. Canfu'r astudiaeth lle bo ysgolion yn ymwneud â'u cymuned leol y caiff hyn effaith uniongyrchol ar gyrhaeddiad y disgyblion gan godi eu dyheadau o ran datblygu o'r ysgol i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

## 1.8 Ymhlith y buddiannau mae:

### *I ddisgyblion ac ysgolion:*

- lefelau uwch o gyflawniad ymhlith y disgyblion
- gwell cymhelliant a hunan-barch ymhlith y disgyblion
- cymorth arbenigol i ddiwallu anghenion ehangach y disgyblion
- cyfleusterau ac offer ychwanegol
- cynnydd o ran gweithio mewn partneriaeth gyda'r gymuned
- statws uwch i ddysgu yn y gymuned leol
- llai o anfodlonrwydd ymhlith y disgyblion.

### *I deuluoedd:*

- gwelliannau o ran ymddygiad a sgiliau cymdeithasol plant
- mwy o gyfranogiad gan rieni yn nysgu eu plant
- mwy o gyfleoedd lleol ar gyfer addysg i oedolion a dysgu i deuluoedd
- cynnydd yn y cymorth arbenigol sydd ar gael i deuluoedd.

### *I gymunedau:*

- gwell mynediad i wasanaethau hanfodol
- mwy o gyfleusterau chwaraeon, cyfleusterau celfyddydol a chyfleusterau eraill ar gael yn lleol
- cyfleoedd datblygu gyrfa lleol
- gwell goruchwyliaeth i blant y tu allan i oriau ysgol
- cydberthnasau agosach gyda'r ysgol.

## **A fydd angen i ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned weithio'n wahanol?**

**1.9** Mae'n debygol y bydd angen i'r rhan fwyaf o ysgolion wneud rhai newidiadau i'w ffordd o weithredu, er enghraifft drwy gyflwyno oriau agor mwy hyblyg a threfniadau cyllidebol newydd gan fod yn rhaid i'r gyllideb gweithgareddau cymunedol gael ei rheoli ar wahân.

**1.10** Bydd angen i ysgolion hefyd weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau ac asiantaethau eraill. Efallai y bydd ysgolion uwchradd am ystyried gweithio gydag ysgolion cynradd partner neu efallai y bydd ysgolion am weithio mewn clystyrau, gyda phob ysgol yn datblygu gwahanol weithgareddau a gwasanaethau. Mae gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau:

- gweithgareddau mwy amrywiol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol, fel cylchoedd chwarae, clybiau chwaraeon a sefydliadau gwirfoddol
- ymagwedd 'gyd-gysylltiedig' tuag at wasanaethau lleol gan gynnwys yr awdurdod lleol, asiantaethau lleol a phartneriaethau
- cyfle i ddarparu gwasanaethau sy'n gofyn am sgiliau arbenigol, fel gofal iechyd neu wasanaethau cymdeithasol
- rhaglenni cynaliadwy lle nad yw'r gweithgareddau a'r gwasanaethau yn dibynnu'n ormodol ar sgiliau ac amser nifer fach o aelodau o staff allweddol
- cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau sy'n wahanol i weithgareddau'r ysgol ac a all ymddangos fel gweithgareddau 'heb athrawon'.

**1.11** Mae'n bosibl na fydd y capasiti ar gael bob amser i ddarparu gwasanaethau yn adeiladau'r ysgol ac mae'n bosibl y bydd ysgolion am ystyried lleoliadau amgen (gweler paragraffau 3.26, 4.17-4.19).

### **Pwy all sefydlu rhaglenni?**

**1.12** Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all sefydlu rhaglenni neu wasanaethau. Fodd bynnag, ni all y corff llywodraethol ddarparu gwasanaeth a allai ymyrryd â'i brif ddyletswydd i addysgu disgyblion neu ei gyfrifoldeb i hyrwyddo safonau uwch o ran cyflawniad addysgol. Ymhob ysgol a chymuned ceir grwpiau allweddol y bydd angen ymgynghori â hwy. Dylid eu cynnwys yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod rhaglenni ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned wedi'u trefnu'n dda a'u bod yn diwallu anghenion lleol.

**1.13** Mae'n bosibl mai grŵp neu bwyllgor ar wahân o fewn yr ysgol fydd yn gyfrifol am raglenni llai, o dan arweiniad y llywodraethwyr, penaethiaid, staff yr awdurdod lleol neu rieni. Ar gyfer rhaglenni mwy, mae'n bosibl y bydd yr ysgol am ddirprwyo'r gwaith o'u rheoli i asiantaethau neu bartneriaethau sy'n bodoli eisoes fel y Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

**1.14** Y corff llywodraethol sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros benderfynu p'un a ddylai'r ysgol gynnig gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol ac ar ba ffurf y dylid eu cynnig.

## Adran 2: Cefndir Cyfreithiol

### Cwmpas darpariaeth gymunedol

**2.1** Rhydd Adrannau 27 a 28 Deddf Addysg 2002 y pŵer i gyrff llywodraethol pob ysgol a gynhelir ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n 'gydnaws ag unrhyw ddiben elusennol er budd disgyblion yr ysgol neu eu teuluoedd neu bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal lle y lleolir yr ysgol', neu i drefnu contractau i ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau o'r fath.

**2.2** Trefnir dibenion elusennol o dan bedwar pennawd bras:

- gwella caledi ariannol - er enghraifft, rhoi arian i fuddiolwyr; darparu gwasanaethau ymgynghorol neu wasanaethau eraill i'r rheini mewn angen; neu ddarparu cymorth i sefydliadau eraill sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n dioddef caledi.
- hyrwyddo addysg - nid yw'r pennawd hwn wedi'i gyfyngu i addysg ffurfiol mewn ysgolion, colegau neu brifysgolion, ond gallai gynnwys cylchoedd chwarae, hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith ac ymchwil.
- hyrwyddo crefydd - rhaid i'r pennawd hwn fod yn seiliedig ar gred mewn goruchaf fod neu fodau; ac mae'n cynnwys mynegi'r gred honno drwy addoli.
- rhai dibenion penodol eraill er budd y gymuned - megis cynorthwyo'r henoed, pobl sâl neu anabl; hyrwyddo cytgord hiliol; darparu cyfleusterau hamdden; neu hybu iechyd.

**2.3** Mae'r penawdau hyn yn cwmpasu'r gwasanaethau a'r gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned y mae ysgolion yn debygol o fod am eu darparu. Maent yn cynnwys gofal plant, dysgu i oedolion a theuluoedd, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi'u cydleoli, a chyfleusterau eraill sydd o fudd i'r gymuned leol fel undebau credyd neu ddarpariaeth TG. Os bydd ysgolion am sefydlu elusen i gynnal gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gellir cael cyngor pellach gan y Comisiwn Elusennau (gweler Adran 8.2 am fanylion cyswllt).

**2.4** Mae statws y cylchlythyr hwn yn anstatudol ac eithrio Adrannau 3.2 i 3.8 (Gofal plant) ac Adran 4 (Ymgynghori a Chynllunio) yn ei chyfanrwydd y mae'n rhaid i gyrff llywodraethol ysgolion eu hystyried wrth weithredu'r pŵer o dan Adran 27(1) neu wrth ymgynghori o dan Adran 28(4) Deddf Addysg 2002.

**2.5** Mae Adran 11 y Ddeddf hefyd yn darparu pŵer newydd sy'n galluogi corff llywodraethol ysgol i ffurfio cwmnïau i brynu nwyddau neu ddarparu gwasanaethau i ysgolion eraill, neu gymryd rhan wrth ffurfio cwmnïau o'r fath. Ni weithredwyd Adran 11 a'r darpariaethau cysylltiedig yng Nghymru eto. Cynhelir ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r arweiniad angenrheidiol maes o law.

### Dyletswyddau llywodraethwyr

**2.6** Ymhlith dyletswyddau allweddol llywodraethwyr mae:

- sicrhau ffynonellau ariannu ategol ar gyfer mentrau
- diogelu'r gyllideb ddirprwyedig
- sicrhau yswiriant addas.



**2.7** Corff llywodraethol ysgol sy'n rheoli'r defnydd o'r ysgol y tu fewn a'r tu allan i oriau ysgol ac eithrio pan fydd gweithred ymddiriedaeth yn caniatáu i berson ac eithrio'r corff llywodraethol reoli'r defnydd o'r adeilad, neu os lluniwyd cytundeb trosglwyddo rheolaeth. Yn achos ysgolion a reolir yn wirfoddol gall y llywodraethwyr sylfaen benderfynu ar y defnydd a wneir o'r adeilad ar ddydd Sul.

**2.8** Ni all cyrff llywodraethol ddarparu unrhyw wasanaeth a allai ymyrryd â'u prif ddyletswydd sef addysgu disgyblion na'u cyfrifoldeb o ran hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol yn yr ysgol.

**2.9** Mae'r corff llywodraethol yn 'gorfforaeth gorfforedig' ac mae ganddo hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i'r llywodraethwyr unigol. Bydd pob llywodraethwr yn atebol am benderfyniadau a wnaed mewn modd priodol.

**2.10** Cyhyd â bod llywodraethwyr yn gweithredu mewn ffordd onest a rhesymol ac o fewn eu pwerau wrth gyflawni eu swyddogaethau, bydd unrhyw rwymedigaeth yn cael ei gosod ar y corff llywodraethol yn hytrach nag ar aelodau unigol. Felly diogelir llywodraethwyr unigol yn erbyn unrhyw risg i'w hasedion eu hunain o ganlyniad i benderfyniadau'r corff llywodraethol.

## Camau diogelu

**2.11** O dan Ddeddf Addysg 2002, rhaid i'r corff llywodraethol ymgynghori â'r AALL, staff yr ysgol, a rhieni disgyblion cofrestredig yr ysgol, disgyblion cofrestredig lle y bo hyn yn briodol ac 'unrhyw bobl eraill sy'n briodol ym marn y corff llywodraethol' cyn iddo ddarparu unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol. Gan ddibynnu ar natur y ddarpariaeth a gynigir dylid ystyried ymgynghori â'r gymuned leol, asiantaethau a phartneriaethau perthnasol, undebau athrawon, y Cyngor Cenedlaethol-ELWa, busnesau lleol, awdurdodau esgobaethol a sefydliadau gwirfoddol.

**2.12** Yn ogystal rhaid i'r corff llywodraethol ddilyn darpariaethau a allai fod wedi'u cynnwys yng nghynllun yr AALL ar gyfer ariannu ysgolion.

**2.13** Mae pŵer gan y Cynulliad Cenedlaethol i wahardd rhai mathau penodol o weithgareddau y gellid eu hystyried yn amhriodol i'w cynnal yn yr ysgol. Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i gyflwyno rheoliadau i wneud hyn.

**2.14** Mae'r pŵer gan yr AALL i atal cyllideb ddirprwyedig ysgol os:

- bydd yr AALL o'r farn bod rheolaeth ariannol corff llywodraethol o wasanaethau cymunedol a ddarperir ganddynt yn anfoddhaol;
- bydd y corff llywodraethol wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw reolau a bennwyd gan gynllun ariannu ysgolion yr AALL neu yn unol â'r cynllun hwnnw, a hynny mewn modd sylweddol neu gyson.

**2.15** Os bydd trydydd parti yn gwneud cais yn erbyn corff llywodraethol mewn perthynas â'i ddarpariaeth o weithgareddau a gwasanaethau cymunedol, noda Deddf Addysg 2002 ddarpariaethau i'r AALL ymdrin â'r cais. Ond os bydd gan y corff llywodraethol arian yn ei gyllideb gwasanaethau cymunedol, bydd hawl gan yr AALL i gael ad-daliad gan y corff llywodraethol.

**2.16** Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, lle y bydd llywodraethwyr wedi gweithredu'n anghyfreithlon neu wedi gweithredu fel unigolion yn hytrach na fel corff corfforaethol, ni all yr AALL adennill y costau gan lywodraethwyr unigol.

## Adran 3: Gweithgareddau a Gwasanaethau

### Pa fathau o wasanaethau y dylai ysgol eu darparu?

**3.1** Bydd ymgynghori yn lleol yn helpu ysgolion i gytuno â'u partneriaid pa fathau o wasanaethau y dylent eu cynnig i'w disgyblion, teuluoedd neu'r gymuned. Disgrifir rhai gwasanaethau allweddol yn gryno yn yr adran hon, ond anogir ysgolion hefyd i gynnig eu gweithgareddau neu eu rhaglenni eu hunain sy'n adlewyrchu anghenion eu cymuned leol hwy.

### Gofal plant

**3.2** Mae llawer o ysgolion eisoes yn cynnig gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn llwyddiannus ar safle'r ysgol, drwy bwyllgor rheoli gwirfoddol, darparwr preifat neu sefydliad gwirfoddol neu elusennol lleol.

**3.3** Rhydd Cynllun Gweithredu Gofal Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru y fframwaith ar gyfer datblygu gofal plant fforddiadwy, o ansawdd da ledled Cymru. Mae adnoddau ar gael i helpu grwpiau newydd a grwpiau sy'n bodoli eisoes i ddatblygu eu darpariaeth gofal plant. Dosberthir Cymorth - y Gronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc yn ôl fformiwla i bartneriaethau yn ardal pob awdurdod lleol.

**3.4** O ganlyniad i Ddeddf Addysg 2002, o fis Medi 2003 rhoddir y cyfle i gyrff llywodraethol ysgolion ddarparu gofal plant eu hunain, boed mewn partneriaeth gydag eraill neu beidio, ar safle'r ysgol. Daw darpariaeth gofal plant ar safleoedd ysgol o dan y gyfundrefn reoleiddio a nodir yn Neddf Safonau Gofal 2000 ac a weithredir gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru o fis Ebrill 2004. Fodd bynnag, dylai darpariaeth o'r fath fodloni'r gofynion a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Darpariaeth Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol, Gofal Dydd Llawn, Meithrinfeydd, Gofal Sesiynol neu Chwarae Mynediad Agored fel y bo'n briodol. Mae copïau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**3.5** Bydd angen i ysgolion gydweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP) yn eu hardal leol wrth gynllunio gwasanaethau gofal plant. Mewn rhai ardaloedd mae'r EYDCP yn un o is-grwpiau'r Bartneriaeth Plant ehangach, ond mewn ardaloedd eraill mae'r Bartneriaeth Plant ei hun yn gweithredu fel EYDCP.

**3.6** Mae partneriaethau EYDCP yn cynllunio ac yn datblygu gwasanaethau addysg gynnar a gofal plant yn eu hardal. Gallant gynnig cyngor busnes a data archwilio ar anghenion lleol. Mae ganddynt hefyd amrywiaeth eang o gysylltiadau gyda sefydliadau preifat a gwirfoddol sy'n gweithredu yn lleol ac yn genedlaethol, a gallant gynnig gwybodaeth ar sut y dylid ymgynghori â hwy a'u cynnwys. Yn ogystal, gall Clybiau Plant Cymru gynnig cyngor arbenigol ar sefydlu a rhedeg gofal plant ar gyfer plant o oed ysgol (gweler Adran 8.3 am fanylion cyswllt).

**3.7** Mae'n bosibl y bydd Partneriaethau Plant yn gallu cynnwys ysgolion mewn mentrau sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth ehangach, fel Cychwyn Cadarn a Chanolfannau Integredig.

**3.8** Wrth ystyried darparu gofal plant, dylai ysgolion geisio sicrhau na fyddant yn cystadlu â'r ddarpariaeth gofal plant sy'n bodoli eisoes yn eu hardal leol.

## Dysgu Gydol Oes

**3.9** Mae dysgu gydol oes yn broses barhaus ar gyfer datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n hanfodol er mwyn sicrhau cyflogaeth a boddhad. Yn gynyddol, caiff cyfleoedd dysgu gydol oes eu hanelu at bawb, yn hytrach na grwpiau penodol. Maent yn cwmpasu llawer o gyfleoedd ar gyfer meithrin sgiliau a gwybodaeth gan gynnwys prentisiaethau, addysg uwch, hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith a mynediad i gyfleusterau TGCh.

**3.10** Mae gan ysgolion eisoes ran allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo a chefnogi dysgu gydol oes. Mae'n bosibl y bydd llawer ohonynt yn awyddus i ehangu lefel eu cyfranogiad neu amrywiaeth y gwasanaethau a gynigir ganddynt er mwyn bod o fudd i'w cymuned leol. Mae gan AALL ran allweddol i'w chwarae wrth gyflwyno darpariaeth dysgu gydol oes. Gallant weithio gydag ysgolion i nodi cyfleoedd addas iddynt gyfranogi.

**3.11** Dylai ysgolion hefyd gyfrannu at waith eu Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant (CCAH) lleol er mwyn archwilio sut y gellir gwella a chynyddu cyfleoedd ar gyfer darparu dysgu gydol oes yn eu hardal. Mae gan y Consortia hyn rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyflwyno cynigion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ddydysgu yn eu hardaloedd ac wrth gynghori'r Cyngor Cenedlaethol-ELWa mewn perthynas â chynigion o'r fath. Gallai 'Tirau Gweithredu ar gyfer Gwaith' sy'n cysylltu â'r ddarpariaeth leol yn nhermau rhaglenni cyfeirio a chymorth yn y gymuned hefyd fod yn bartner posibl (gweler Adran 8.3 am fanylion cyswllt).

**3.12** Gall ysgolion hyrwyddo dysgu gydol oes mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- darparu cyfleusterau ar gyfer cyrsiau sydd wedi'u trefnu gan ddarparwyr addysg;
- gweithio gyda darparwyr fel colegau AB lleol i ddatblygu darpariaeth sy'n diwallu anghenion yr ysgol ac anghenion lleol fel cyrsiau llythrennedd a rhifedd i deuluoedd neu brojectau dysgu i deuluoedd;
- darparu gwybodaeth am gyfleoedd lleol ar gyfer hyfforddiant sgiliau sylfaenol, dysgu i oedolion neu astudiaethau galwedigaethol;
- hyrwyddo strategaethau sy'n bodoli eisoes fel yr Wythnos Dysgu i Oedolion.

## Cymraeg

**3.13** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog (*'Iaith Pawb'*) ac mae'n ymrwymedig i annog unigolion i ddydysgu Cymraeg ac i'w grymuso i ddefnyddio'r iaith. Gallai fod gan ysgolion ran allweddol i'w chwarae wrth ddarparu cyrsiau yn Gymraeg ar gyfer pobl ifanc ac oedolion yn eu cymunedau. Mae'n bosibl y bydd ysgolion am gysylltu â'u Consortiwm Cymraeg i Oedolion lleol i drafod y ddarpariaeth cyrsiau Cymraeg sy'n bodoli yn yr ardal a'r rhan y gallai'r ysgol ei chwarae.

## Ieithoedd Eraill

**3.14** Mae ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg (ieithoedd tramor modern a ieithoedd cymunedol) hefyd yn fath poblogaidd o ddydysgu ymhlith oedolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i wella gallu cenedlaethol Cymru mewn

ieithoedd ac mae wedi nodi ei strategaeth yn hyn o beth yn *Languages Count*, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2002. Gallai ysgolion ddarparu cyfleoedd pwysig i bobl yn eu cymunedau ddysgu ieithoedd eraill. Mae angen i ddysgwyr yn y gymuned allu manteisio ar gyrsiau mewn amrywiaeth o ieithoedd ac ar wahanol lefelau. Bydd angen i ysgolion sydd am ymwneud â darparu dysgu ieithyddol i bobl yn eu cymuned ddatblygu cysylltiadau da gyda cholegau a darparwyr cyrsiau iaith eraill.

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**3.15** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio i wella safonau iechyd, addysg iechyd a gofal cymdeithasol ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

**3.16** Mae llawer o ysgolion eisoes yn helpu i sicrhau bod plant, athrawon a rhieni yn fwy ymwybodol o faterion iechyd a gofal cymdeithasol ac yn darparu cyfleoedd i wella iechyd. Gall ysgolion hefyd helpu i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy dargedu gwasanaethau tuag at grwpiau fel plant ag anghenion addysgol arbennig neu blant sy'n derbyn gofal.

**3.17** Mae cynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru yn rhoi cymorth i ysgolion ar ddod yn lleoliadau mwy iach i staff a disgyblion weithio a dysgu. Mae'r rhwydwaith yn annog gweithgareddau a gwasanaethau sy'n helpu i hyrwyddo iechyd gan gynnwys clybiau brechwast, siopau byrbryd 'iach' a mwy o ffocws ar weithgareddau corfforol mewn clybiau y tu allan i oriau ysgol a gofal plant.

**3.18** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu cynigion ar gyfer darparu brechwast am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru. Yn dilyn ymgynghori, disgwylir y bydd y ddarpariaeth yn dechrau mewn ysgolion o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf o 2004 ac y caiff ei hymestyn i bob ysgol maes o law.

**3.19** Yn ogystal, mae'r rhaglenni sydd eisoes ar waith o fewn ysgolion yn cynnwys:

- Clinigau rhoi'r gorau i ysmegu
- Clinigau deintyddol
- Canolfannau iechyd teuluoedd
- Clinigau galw i mewn sy'n ymdrin ag iechyd pobl ifanc yn eu harddegau (ar gyfer materion fel bwlio, cyffuriau, problemau bwyta a iechyd emosiynol a rhywiol).

**3.20** Bydd angen i ysgolion sydd am ehangu eu cyfranogiad weithio gyda darparwyr a phartneriaethau sy'n bodoli eisoes i ddatblygu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar safleoedd ysgol er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaethau eu hintegreiddio gyda'r ddarpariaeth leol sy'n bodoli eisoes a'u bod yn bodloni gofynion lleol.

### Gweithgareddau Diwylliannol a Chwaraeon

**3.21** Mae strategaeth diwylliant Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Creative Future: Cymru Creadigol* yn cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon i addysg plant a'u datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol ehangach. Mae gan y celfyddydau, chwaraeon a chreadigrwydd ran amlwg o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol a gweithgareddau ehangach ysgolion.

**3.22** Gall mynediad cynyddol gan y gymuned i gyfleoedd diwylliant a hamdden chwarae rhan allweddol wrth adfywio cymunedau. Mae gan bolisiau diwylliant a hamdden gyfraniad gwerthfawr i'w wneud i gynhwysiant cymdeithasol mewn cymunedau tlotach. Maent yn helpu i gyflawni diweithdra hirdymor is, lleihau troseddau, gwell iechyd a gwell cymwysterau.

**3.23** Gall ysgolion arwain gweithgareddau dysgu i deuluoedd, dysgu gydol oes a chymorth astudio oddi ar safle'r ysgol, gan fanteisio ar adnoddau a ddarperir gan amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd, atyniadau chwaraeon ac atyniadau diwylliannol lleol eraill.

**3.24** Mae cynnig mynediad i'r gymuned i gyfleusterau ysgolion ar gyfer chwaraeon, cerddoriaeth, drama a chelf yn helpu i wella nifer ac amrywiaeth y cyfleusterau hamdden lleol. Gall hyd yn oed feysydd chwarae a gofod dan do mewn ysgolion cynradd llai ddarparu adnodd cymunedol defnyddiol y tu allan i oriau ysgol ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon.

### **Chwarae**

**3.25** Gall ysgolion chwarae rhan allweddol wrth greu a gwella cyfleoedd ar gyfer chwarae awyr agored a hamdden anffurfiol. Lle y bo'n bosibl, anogir ysgolion hefyd i agor eu meysydd chwarae i ddarparu gofod agored a gofod i chwarae, yn arbennig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ddarpariaeth o ran meysydd chwarae neu ofod agored.

### **Gwasanaethau Eraill i Blant a Phobl Ifanc**

**3.26** Mae'n bosibl y bydd gan ysgolion gyfleoedd i greu cyfuniadau newydd o wasanaethau i blant a phobl ifanc, neu i ehangu'r gweithgareddau a gynigir ganddynt eisoes.

**3.27** Bydd llawer o ysgolion yn gallu darparu'r gwasanaethau hyn eu hunain yn yr ysgol. Mae'n bosibl y bydd eraill yn dewis cynnwys grwpiau chwaraeon lleol, sefydliadau cymunedol, Gwasanaethau Ieuentid neu sefydliadau gwirfoddol. Gall y grwpiau hyn gynnig gwahanol fathau o gymorth a phrofiadau mwy amrywiol sy'n ategu darpariaeth yr ysgol.

### **Gwasanaethau i Bobl Ifanc**

**3.28** Bu'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Partneriaeth Pobl Ifanc aml-asiantaeth i gynllunio amrywiaeth cydlynus o wasanaethau i bob person ifanc, ac i sicrhau y cyflwynir y gwasanaethau hynny, mewn cydweithrediad agos â'r bobl ifanc eu hunain. Mae'r Partneriaeth yn canolbwyntio ar hawl gyffredinol pob plentyn ifanc 11-25 oed i wasanaethau, fel y'i disgrifir yn "Ymestyn Hawliau". Mae rôl ysgolion wrth gefnogi'r agenda hon yn bwysig, yn arbennig wrth ddarparu cyfleusterau i aelodau'r Partneriaeth allu cyflwyno gwasanaethau i bobl ifanc, ac wrth eu hannog i'w defnyddio.

### **Gwasanaethau Ieuentid**

**3.29** Gall gweithwyr ieuentid ddod â gwahanol set o sgiliau i sgiliau athrawon wrth weithio gyda phobl ifanc. Gall ysgolion weithio gyda Gwasanaethau Ieuentid lleol, yn wirfoddol ac yn statudol i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd. Gallai'r rhain gynnwys cyfleusterau TG, drama a chwaraeon i glybiau ieuentid mewn ysgolion a mynediad cynyddol i gyfleusterau i bobl ifanc yn ystod eu hamser hamdden.

## Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol

**3.30** Diffinnir Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol (y cyfeiriwyd ato yn y gorffennol fel Cymorth Astudio) fel gweithgaredd dysgu y tu allan i wersi arferol y mae pobl ifanc yn ymgymryd ag ef yn wirfoddol. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o weithgareddau a ddisgrifir yn y cylchlythyr hwn, oherwydd ei gysylltiadau â chwricwlwm yr ysgol, fe'i hystyrir yn weithgaredd at ddibenion yr ysgol a gellir ei ariannu o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol.

**3.31** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i'r egwyddor o ddysgu y tu allan i oriau ysgol. Dylai fod yn rhan annatod o addysg pob person ifanc. Mae dysgu y tu allan i oriau ysgol yn atgyfnerthu'r gwaith a wnaed yn ystod y diwrnod ysgol; yn helpu i godi safonau'r disgyblion yn y sgiliau allweddol; yn gwella cymhelliant a hunan-barch; ac yn helpu disgyblion i ddod yn ddysgwyr mwy effeithiol.

**3.32** Mae ContinYou, y brif elusen ar gyfer dysgu y tu allan i oriau ysgol, wedi datblygu Cod Ymarfer ar Ddysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol, a deunyddiau hyfforddi cysylltiedig. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi enghreifftiau o nifer o brosiectau ledled Cymru a'i nod yw hyrwyddo arfer da (gweler Adran 8.3 am fanylion cyswllt).

## Profiad Gwaith

**3.33** Gall profiad gwaith chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Gall hefyd eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd gwaith.

**3.34** Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion eisoes yn mynd ar leoliadau profiad gwaith, ond gallai partneriaeth agosach gyda busnesau lleol a rhieni alluogi ysgolion i ddatblygu rhaglenni cyfleoedd gwaith hyblyg, mwy amrywiol ar gyfer amrywiaeth ehangach o blant. Mae gan Gyrfa Cymru ran i'w chwarae wrth helpu i ddod â'r cymunedau addysg a busnes ynghyd a lledaenu arfer da a gall gynnig cymorth i ysgolion.

## Gwasanaethau Eraill i'r Gymuned

**3.35** Gall ysgolion chwarae rhan bwysig wrth helpu i adeiladu cymunedau cryf a gweithgar lle y caiff pobl o bob hil a chefnidir eu gwerthfawrogi a lle y gall y sector gwirfoddol ffynnu.

**3.36** Mae pob cymuned yn amrywio, ond mae'n debygol y bydd gweithgareddau a gwasanaethau ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned o werth arbennig mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd difreintiedig. Yn y cymunedau hyn mae gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn brin, a cheir llai o fusnesau neu gyfleusterau cymunedol lleol. Gall ysgolion fod yn lleoliad ar gyfer gwasanaethau hanfodol.

## Adfywio Cymunedau

**3.37** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i annog ysgolion i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill i archwilio ffyrdd o gynorthwyo i adfywio cymunedau.

**3.38** Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf y Cynulliad yn ymagwedd gymunedol tuag at fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd yn ein cymunedau mwyaf

difreintiedig. Gall ysgolion gymryd rhan yn y rhaglen mewn sawl ffordd. Gellir eu cynrychioli ar Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, gallant annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan a gallant helpu drwy gynnig gwasanaethau lleol gwell, mwy hygyrch. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl y bydd ysgolion yn gweld mai hwy sy'n gweithredu fel prif asiantau newid yn y gymuned.

### Adnoddau Gwybodaeth a TG

**3.39** Gall cynnig mynediad i gyfleusterau TG a chyfleusterau llyfrgell a gwybodaeth yr ysgol helpu cymunedau lleol. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn ardaloedd lle nad oes llawer o gyfleusterau ar gyfer cysylltu â'r rhyngrwyd ac e-bost.

**3.40** Darparwyd arian ar gyfer Canolfannau Dysgu TG mewn ysgolion uwchradd fel rhan o'r fenter TG ar gyfer Dysgu yn 2001-2. Diben yr arian hwn oedd darparu offer TG ychwanegol y gellid ei ddefnyddio yn ystod y diwrnod ysgol gan ddisgyblion ac athrawon a chydâ'r nos ac ar benwythnosau gan ddisgyblion a/neu oedolion sy'n dysgu mewn clybiau gwaith cartref a dosbarthiadau addysg barhaus.

**3.41** Mae angen i ysgolion ystyried sut i adeiladu ar y ddarpariaeth gymunedol sydd ar gael drwy'r canolfannau hyn yn ogystal â'r cyfleoedd ychwanegol sy'n deillio o gyflwyno cysylltedd band eang.

**3.42** Ymhlith y mentrau TG penodol ar gyfer cymunedau sydd ar waith ar hyn o bryd mae:

- Canolfannau DU Ar-lein
- Canolfannau Learndirect
- Rhwydwaith y Bobl - gwasanaethau Rhyngrwyd a gwasanaethau TG eraill am ddim mewn llyfrgelloedd lleol.

### Siopau a Gwasanaethau Masnachol

**3.43** Ceir diffyg siopau a gwasanaethau masnachol yn lleol mewn llawer o ardaloedd. Gall darparu eitemau sylfaenol y gellir eu fforddio gynnig manteision mawr, yn arbennig ar gyfer grwpiau cymdeithasol llai symudol, fel plant neu'r henoed. Gallai rhai ysgolion ddatblygu gwasanaethau mwy arbenigol, fel canolfannau busnes, sy'n diwallu anghenion lleol penodol.

### Canolfannau Cymunedol

**3.44** Mae gan lawer o ysgolion ardaloedd mawr o ofod dan do sydd wedi'u dodrefnu'n dda ac a all ddarparu lleoliadau cost isel delfrydol ar gyfer gweithgareddau, clybiau a digwyddiadau cymdeithasol cymunedol.

### Gwasanaethau Eraill

**3.45** Efallai y gallai ysgolion ddarparu lleoliad neu hyrwyddo sefydliadau cymunedol, fel:

- Canolfannau Cyngor ar Bopeth
- Swyddfeydd Cymdeithasau Tai
- Undebau Credyd
- Cynlluniau Trafnidiaeth Gwirfoddol
- Wardeniaid yn y Gymdogaeth.

## Adran 4: Ymgynghori a Chynllunio

### Pa bartneriaid y mae angen eu cynnwys?

**4.1** Ymhob ysgol a chymuned bydd grwpiau allweddol y bydd angen ymgynghori â hwy am weithgareddau. Dylid eu cynnwys yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod rhaglenni ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned wedi'u trefnu'n dda a'u bod yn diwallu anghenion lleol.

### Llywodraethwyr Ysgolion

**4.2** Y corff llywodraethol sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros benderfynu pa un a ddylai'r ysgol gynnig gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol ac ar ba ffurf y dylid eu cynnig. Cyn gwneud penderfyniadau, mae angen i lywodraethwyr fod yn ymwybodol o unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a allai godi. Fel gyda gweithgareddau a gynhelir eisoes yn yr ysgol, gall cyrff llywodraethol ddirprwyo'r gwaith o gyflwyno'r gwasanaethau i eraill, ond hwy fydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol terfynol o hyd. Dylai'r corff llywodraethol nodi un o'i aelodau i fod yn bennaf gyfrifol am y maes gwaith hwn.

### Penaethiaid a Staff Ysgolion

**4.3** Mae angen ymgynghori'n llawn â phenaethiaid wrth ddatblygu gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd y pennaeth yn dewis cymryd rhan agos yn y broses o arwain gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol. Dylid penodi aelod o dîm rheoli'r ysgol i oruchwylio'r gweithgareddau cymunedol ac i gysylltu â'r gymuned leol a phartneriaid allanol eraill.

**4.4** Gall staff eraill yr ysgol hefyd chwarae rhan allweddol yn y broses gynllunio. Bydd gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth glir o anghenion y disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ysgol ehangach. Byddant hefyd yn gallu rhoi cyngor ar effaith gwasanaethau ychwanegol ar adeiladau'r ysgol, offer, amserlenni a chymuned yr ysgol o ddydd i ddydd.

**4.5** Waeth beth fydd lefel eu cyfranogiad, dylid hysbysu pob aelod o staff yr ysgol yn rheolaidd a'u cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud ag adeiladau'r ysgol, y staff neu'r disgyblion.

### Undebau Athrawon ac Undebau Eraill

**4.6** Dylid ymgynghori â'r undebau athrawon a'r undebau sy'n cynrychioli aelodau eraill o staff er mwyn iddynt allu sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn gyson ag amodau gwasanaeth eu haelodau.

### Awdurdodau Lleol

**4.7** Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio cymunedol ac yn darparu neu'n hwyluso amrywiaeth eang o wasanaethau eu hunain. Gall awdurdodau lleol ddod â phartneriaid lleol ynghyd a darparu arbenigedd ymarferol, arweinyddiaeth a chymorth i ysgolion. Gallant gydweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y rhaglenni yn adlewyrchu ac yn cefnogi strategaethau cymunedol ehangach. Gallant hefyd roi cyngor i ysgolion ar sut y gallai gweithgareddau ategu mentrau lleol eraill.



**4.8** I ddechrau, dylai ysgolion ofyn i AALL am farn strategol ar raglenni posibl. Mae AALL mewn sefyllfa dda i helpu i asesu gallu ysgolion i gynnig gweithgareddau ychwanegol. Gallant ystyried adnoddau, galluoedd rheoli ariannol ac ystyriaethau eraill sy'n berthnasol i'r ysgol. Bydd AALL yn gallu cyfeirio ysgolion i rannau eraill o'r awdurdod a all gynnig cyngor am wasanaethau penodol.

### **Cyngor Cenedlaethol-ELWa/Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant (CCAH)**

**4.9** Mae gan y Cyngor Cenedlaethol-ELWa gyfrifoldeb dros addysg a hyfforddiant ôl-16 ar ddarpariaeth dysgu gydol oes. Rôl CCAH yw cynorthwyo wrth gynllunio a chyflwyno addysg a hyfforddiant ôl-16 er mwyn diwallu anghenion y dysgwyr ar gymuned ac osgoi dyblygu diangen. Dylai ysgolion ymgynghori â'r CCAH lleol os oes ganddynt gynlluniau sy'n ymwneud â gwasanaethau addysg a hyfforddiant ôl-16 er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion lleol ac yn gydnaws ag elfennau eraill o'r ddarpariaeth yn yr ardal.

### **Awdurdodau Esgobaethol**

**4.10** Mae angen i ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol ymgynghori â'u hawdurdodau esgobaethol er mwyn sicrhau nad yw cynigion yr ysgol ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn torri telerau unrhyw weithred ymddiriedaeth.

### **Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf**

**4.11** Lle y bodolant, dylid cynnwys Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn llawn yn y broses ymgynghori ac wrth ddatblygu rhaglenni. Gallant ddarparu mynediad i lawer o grwpiau allweddol a helpu i sicrhau bod gwasanaethau'r ysgol yn cefnogi ac yn ategu'r weledigaeth gymunedol ehangach.

### **Rhieni**

**4.12** Mae'n debygol mai rhieni fydd yn manteisio fwyaf ar y gweithgareddau ychwanegol, iddynt hwy eu hunain ac i'w plant. Bydd angen i'r trefnwyr gasglu barn rhieni ar y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio rhiant wirfoddolwyr i helpu i drefnu rhai gweithgareddau.

**4.13** Dylid ceisio ymgynghori â chymaint o rieni â phosibl yn ystod y cam cynllunio. Mae Cymdeithasau Rhieni Athrawon yn un ffordd dda o ymgynghori â rhieni.

### **Plant a Phobl Ifanc**

**4.14** Dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i leisio barn o ran sut y caiff gwasanaethau unigol eu datblygu, eu darparu neu eu gwella.

**4.15** Dylid cymryd safbwyntiau plant a phobl ifanc o ddifrif a gweithredu arnynt. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen rheoli eu disgwyliadau yng ngoleuni cyfyngiadau ymarferol a chyfreithiol.

**4.16** Dylid parhau i gynnwys plant a phobl ifanc unwaith y bydd rhaglenni wedi'u sefydlu, gan ddarparu gwybodaeth iddynt mewn da bryd ac mewn fformatau priodol.

### **Ysgolion Eraill**

**4.17** Mae'n bosibl y bydd ysgolion lleol yn gallu cydweithio mewn clystyrau, gyda phob ysgol yn datblygu gwahanol weithgareddau a gwasanaethau. Bydd hyn yn galluogi disgyblion, teuluoedd a chymunedau i fanteisio ar amrywiaeth ehangach o wasanaethau mewn sawl lleoliad. Gall gweithio mewn clystyrau fod yn arbennig o ddefnyddiol i ysgolion nad oes ganddynt lawer o ofod ychwanegol neu adnoddau i gynnig gwasanaethau.

**4.18** Mae ysgolion arbennig yn cynnig cyfleusterau ac adnoddau arbenigol. Gall llawer ohonynt hefyd fanteisio ar arbenigedd a phrofiad gwasanaethau aml-asiantaeth. Mae'n bosibl y byddant yn gallu ychwanegu at wasanaethau a gynigir eisoes gan rwydweithiau o ysgolion lleol.

**4.19** Dylai AALL allu helpu wrth nodi ysgolion partner addas.

### **Busnesau**

**4.20** Mae'n bosibl y bydd busnesau lleol a chenedlaethol yn barod i rannu adnoddau ac arbenigedd gydag ysgolion neu leoli gwasanaethau mewn ysgolion, naill ai ar sail wirfoddol neu ar sail fasnachol.

**4.21** Ni ddylai'r ddarpariaeth mewn ysgolion gystadlu yn uniongyrchol â gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir yn lleol ar sail fasnachol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cysylltu â busnesau lleol yn ystod y cam cynllunio er mwyn nodi unrhyw wrthdaro posibl.

**4.22** Mae Busnes yn y Gymuned yn sefydliad blaenllaw yng Nghymru sy'n gweithio drwy sianelau strategol a lleol. Defnyddir sgiliau busnes i helpu i roi polisiau addysgol allweddol ar waith. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth o ansawdd uchel yn hanfodol i lwyddiant ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Gall Busnes yn y Gymuned gynorthwyo cyrff llywodraethol, penaethiaid a hwyluswyr newid a nodwyd o fewn ysgolion.

### **Cymuned**

**4.23** Bydd gan bobl leol wahanol safbwyntiau o ran pa fathau o wasanaeth y mae eu hangen fwyaf. Dylai'r broses ymgynghori gynnwys pob grŵp oedran a phobl o bob rhan o'r gymuned, gan gynnwys y rheini sy'n llai parod i leisio eu barn a'r rheini na allant fynychu cyfarfodydd cyhoeddus. Gall grwpiau o'r fath gynnwys pobl hŷn, pobl sy'n byw mewn pentrefi ynysig, pobl anabl a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.

### **Partneriaid Eraill**

**4.24** Bydd angen i ysgolion ystyried unrhyw grwpiau ac unigolion lleol eraill a allai ddarparu cyngor neu weithio mewn partneriaeth â hwy. Gallai'r rhain gynnwys:

- Partneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Canolfannau Cyngor ar Bopeth
- Cynghorau Ieuenctid
- Grwpiau a chlybiau cymunedol a gwirfoddol lleol
- Yr heddlu
- Timau Troseddwyr Ifanc
- Llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau a sefydliadau diwylliannol eraill
- Colegau Addysg Bellach
- Prifysgolion a sefydliadau addysg uwch eraill
- Gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol lleol
- Cynghorau Cymuned
- Cylchoedd chwarae
- Cymdeithasau tenantiaid a thrigolion
- Eglwysi a chyrrff crefyddol eraill
- Gyrfa Cymru
- Cynghorau Ieuenctid a sefydliadau Ieuenctid
- Sefydliadau'r Sector Gwirfoddol
- Timau Gweithredu ar gyfer Gwaith
- Gwarchodwyr Plant
- Clybiau a sefydliadau chwaraeon
- Sefydliadau amgylcheddol
- Cyngor Cenedlaethol-ELWa
- Y Consortiwm Cymunedol Lleol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant

## Adran 5: Materion Ymarferol

**5.1** Bydd angen adolygu rheolaeth ymarferol yr ysgol a'i hadeiladau wrth gynllunio gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol newydd. Er mwyn cynnig gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol, efallai y bydd angen i ysgolion ddatblygu:

- oriau agor mwy hyblyg
- gweithdrefnau newydd ar gyfer ymwelwyr a diogelwch yn yr ysgol
- diwygiadau i'r polisiau iechyd a diogelwch
- trefniadau staffio aml-asiantaeth.

**5.2** Bydd angen i ysgolion fynd i'r afael ag addasiadau mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer eu hamgylchiadau penodol hwy.

**5.3** Byddai'n ddoeth nodi a chwblhau'r holl newidiadau ymarferol angenrheidiol i'r ysgol cyn i'r gweithgareddau ddechrau. Ar gyfer prosiectau mwy, mae'n bosibl y bydd ysgolion am weithio gyda'u hawdurdod lleol neu bartneriaethau lleol allweddol.

### Staffio

**5.4** Ar gyfer llawer o weithgareddau, bydd partneriaid yn gallu cymryd y rôl arweiniol wrth reoli'r ddarpariaeth yn yr ysgol, gan ddefnyddio eu staff arbenigol a'u harbenigedd. Os trefnir gweithgareddau gan grwpiau eraill, er enghraifft drwy Gytundebau Trosglwyddo Rheolaeth, hwy fydd yn gyfrifol am sefydlu trefniadau staffio priodol (gweler paragraffau 5.17-5.20).

**5.5** Mae'n bosibl y bydd rhai o staff presennol yr ysgol hefyd yn gallu cynnig cymorth mewn meysydd penodol o waith. Gall rolau ychwanegol gynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygu gyrfa ac oriau gweithio hyblyg. Mae'n bosibl y bydd staff arbenigol o fewn ysgolion, fel cydlynwyr chwaraeon a chydlynwyr AAA yr ysgol hefyd yn gallu darparu gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd ar gyfer mentrau arfaethedig.

**5.6** Ni ddylai unrhyw weithgareddau newydd ychwanegu at faich gwaith presennol staff yr ysgol heb iddynt gytuno i hynny. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng cymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol a'r angen i gynnal cydbwysedd rhesymol rhwng bywyd a gwaith staff yr ysgol; a rhaid ystyried y Cytundeb Cenedlaethol ar Godi Safonau a Mynd i'r Afael a'r Baich Gwaith.

**5.7** Gall ysgolion wneud taliadau ategol, neu ddarparu amser i ffwrdd o'r gwaith i staff yr ysgol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol. Fel arall, gall gweithgareddau cymunedol ddod yn rhan o waith craidd staff gyda'r cyflog yn cael ei rannu rhwng cyllideb ddirprwyedig yr ysgol a'i chyllideb gymunedol (gweler Adran 6).

**5.8** Nid oes yn rhaid i'r ysgol bob amser fynd i gostau ychwanegol wrth ddarparu staff ychwanegol ar gyfer gweithgareddau. Gall rhieni neu wirfoddolwyr cymunedol gynorthwyo gyda rhai gweithgareddau gan olygu mai costau isel iawn fydd y costau staffio. Mae'n bosibl y bydd ysgolion hefyd yn gallu nodi ffyrdd eraill o ddenu cymorth gan wirfoddolwyr. Gallai'r rhain gynnwys talu treuliau,

cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd, neu drefniant rota er mwyn i wirfoddolwyr allu bod yn hyblyg o ran eu hymrwymiad amser.

**5.9** Gall disgyblion hŷn yn yr ysgol hefyd gymryd rhan wrth gynorthwyo â rhai mathau o weithgaredd. Gall y rolau hyn ddarparu cyfleoedd da ar gyfer meithrin eu hyder a'u sgiliau yn ogystal â rhoi ymdeimlad cryfach i gymuned yr ysgol eu bod yn berchen ar y rhaglenni.

### **Contractau**

**5.10** Mae'n bosibl y bydd angen adolygu rhwymedigaethau cytundebol presennol aelodau o staff sydd am gymryd rhan yn rhaglenni estynedig yr ysgol. Dylid gwneud hyn mewn cydweithrediad â'r corff sy'n cyflogi'r aelod hwnnw o staff. Fel arfer, yr AALL fydd y corff hwn ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol neu'r corff llywodraethol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgol sylfaen neu ysgol a gynorthwyr yn wirfoddol.

### **Gweithdrefnau cwyno**

**5.11** O fis Medi 2003 ymlaen, bydd yn ofynnol i gyrrff llywodraethol sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion mewn perthynas â'i weithgareddau a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol; ac i hysbysu pob defnyddiwr am y gweithdrefnau. Bydd angen i'r gweithdrefnau hyn gwmpasu gwasanaethau cymunedol.

**5.12** Bydd angen i'r corff llywodraethol sicrhau bod gan unrhyw ddarparwyr trydydd parti sy'n cynnig gweithgareddau a gwasanaethau yn yr ysgol, neu sy'n defnyddio cyfleusterau'r ysgol, eu gweithdrefnau cwyno eu hunain ar waith.

### **Statws elusennol**

**5.13** Mae cyrrff llywodraethol ysgolion sylfaen ac ysgolion gwirfoddol yn gyrrff corfforaethol â chanddynt statws elusennol.

**5.14** Mae bod yn elusen yn fanteisiol mewn sawl ffordd wrth helpu ysgolion i gefnogi gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol. Gall y manteision hyn gynnwys gostyngiadau ac eithriadau treth, triniaeth arbennig ar gyfer TAW mewn rhai amgylchiadau a'r gallu i godi arian gan y cyhoedd, ymddiriedolaethau sy'n dyfarnu grantiau a busnesau yn haws na chyrrff nad ydynt yn elusennau.

**5.15** Ceir rhai cyfyngiadau hefyd. Dylai ysgolion sylfaen ac ysgolion gwirfoddol gysylltu â'r Comisiwn Elusennau, Cyllid y Wlad a'r Comisiynydd Tollau Tramor a Chartref i gael cyhoeddiadau a chyngor ar eu cynigion penodol hwy ar gyfer gweithgareddau (gweler Adran 8.2 am fanylion cyswllt).

**5.16** Yn ogystal, dylai ysgolion o'r fath edrych ar unrhyw weithred ymddiriedaeth y'u sefydlwyd oddi tani er mwyn sicrhau bod y gweithgaredd arfaethedig yn unol â'u dibenion elusennol. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen i'r corff llywodraethol neu ymddiriedolwyr yr elusen wneud cais ffurfiol i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddiwygio'r weithred ymddiriedaeth. Gellir gwneud hyn o dan adran 82 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002).

## Cytundebau Trosglwyddo Rheolaeth

**5.17** Gall cyrff llywodraethol drefnu Cytundebau Trosglwyddo Rheolaeth er mwyn rhannu'r gwaith o reoli adeiladau'r ysgol gyda chorff arall, neu drosglwyddo rheolaeth iddo. Bydd y corff arall, a adwaenir fel y 'corff rheoli', yn rheoli deiliadaeth a defnydd yr adeiladau yn ystod yr adegau a nodir yn y cytundeb.

**5.18** Gall trosglwyddo rheolaeth yr adeiladau i grwpiau cymunedol, cymdeithasau chwaraeon a darparwyr gwasanaeth lleol olygu y gall cyfleusterau'r ysgol gael eu defnyddio heb fod angen rheolaeth barhaus neu amser gweinyddol gan staff yr ysgol (gweler hefyd paragraff 5.44 par: yswiriant).

**5.19** Rhaid i'r corff llywodraethol gael caniatâd yr AALL cyn trefnu Cytundeb Trosglwyddo Rheolaeth sy'n trosglwyddo rheolaeth dros yr adeiladau i gorff arall yn ystod oriau ysgol.

**5.20** Rhaid i ysgolion hefyd sicrhau na cheir unrhyw wrthdaro rhwng y defnydd y gellir ei wneud o'r adeiladau o dan y Cytundeb Trosglwyddo Rheolaeth ac unrhyw weithred ymddiriedaeth ar gyfer yr ysgol. Mae hefyd yn arfer da cynnwys trefniadau yn y cytundeb y gall y corff llywodraethol eu dilyn er mwyn adennill rheolaeth dros yr adeiladau.

## Prydlesu adeiladau

**5.21** Mae'n bosibl i gyrff llywodraethol, ymddiriedolwyr neu gyrff sylfaen brydlesu adeiladau'r ysgol y maent yn berchen arnynt. Rhaid i'r corff llywodraethol drafod hyn gyda'i AALL (gweler Adran 19 y ddogfen 'Governor's Guide to the Law' ac Adran 8.3 am fanylion cyswllt).

## Diogelu data a chyfrinachedd

**5.22** Dylai ysgolion ystyried pa un a allai problemau godi mewn perthynas â data personol neu gyfrinachedd wrth gynnig gwasanaethau estynedig.

**5.23** Mae'n bosibl y bydd gan ddarparwyr gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar safle'r ysgol wybodaeth gyfrinachol am gleientiaid neu y bydd angen iddynt gynnal sesiynau ymgynghori mewn preifatrwydd llwyr. Dylai ysgolion gysylltu â darparwyr gwasanaethau arbenigol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn yr ysgol yn bodloni eu gofynion.

**5.24** Bydd ysgolion yn meddu ar wybodaeth sensitif am ddisgyblion a staff y mae'n rhaid ei thrin yn ofalus. O dan Ddeddf Diogelu Data 1998 caiff rhai mathau o wybodaeth eu heithrio rhag cael eu datgelu ac ni ddylid eu rhannu gyda darparwyr gwasanaeth eraill. Mae hyn yn cynnwys:

- deunydd y byddai ei ddatgelu yn debygol o achosi niwed difrifol i iechyd corfforol neu feddyliol neu gyflwr emosiynol y disgybl neu rywun arall;
- gwybodaeth yn nodi pa un a yw'r plentyn yn cael ei gam-drin neu pa un a fu'n cael ei gam-drin neu y gallai fod mewn perygl o gael ei gam-drin;
- geirdaon am ddisgyblion a ddarparwyd i ddarpar gyflogwyr, unrhyw gorff cenedlaethol sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr, ysgol arall, sefydliad addysg bellach neu addysg uwch, neu unrhyw leoliad addysg neu hyfforddiant arall;
- gwybodaeth a allai gael ei defnyddio fel rhan o adroddiad llys.

**5.25** Mae canllawiau ar y Ddeddf Diogelu Data a diogelwch cyfrifiaduron mewn ysgolion ar gael yn:  
[http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/ims/IMSHomepage\(e\).htm](http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/ims/IMSHomepage(e).htm).

### Hyfforddiant

**5.26** Mae'n bosibl y bydd yn briodol darparu cyfleoedd hyfforddi i staff a gwirfoddolwyr. Gall hyfforddiant wella ansawdd y rhaglenni a chyfrannu at ddatblygiad aelodau unigol o staff.

### Diogelu plant

**5.27** Mae'n bosibl y caiff rhai aelodau o staff neu wirfoddolwyr eu recriwtio yn allanol ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol. Bydd angen cyflawni'r gweithdrefnau safonol ar gyfer dilysu staff ysgol gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (gweler Adran 8.5 am fanylion cyswllt).

**5.28** Cyflawnir Datgeliadau Safonol yn bennaf ar gyfer swyddi sy'n cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion diamddiffyn. Mae datgeliadau yn nodi pa un a ddelir gwybodaeth am unigolyn ar restrau adrannau'r llywodraeth o'r rheini sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio â phlant. Cyflawnir Datgeliadau Uwch ar gyfer swyddi lle y ceir llawer mwy o gyswllt â phlant neu oedolion diamddiffyn. Yn gyffredinol bydd y math o waith yn cynnwys gofalu am bobl o'r fath, eu goruchwyllo, eu hyfforddi neu fod yn llwyr gyfrifol amdanynt yn rheolaidd (gweler Adran 8.5 am fanylion cyswllt).

**5.29** Mae llawer o weithgareddau a gwasanaethau estynedig mewn ysgolion yn darparu lefelau cynyddol o fynediad i oedolion i ysgolion. Lle y bydd oedolion a phlant yn cymryd rhan yn yr un gweithgareddau, mae angen i ysgolion sicrhau bod trefniadau staffio digonol ar waith bob amser, ac na chaiff plant eu gadael heb oruchwyliaeth gyda'r oedolion sy'n cymryd rhan.

### Gofod cymunedol a chapasiti'r ysgol

**5.30** Gall AALL ddynodi ardaloedd o'r ysgol nas defnyddir yn ddigonol i'w defnyddio gan y gymuned a thrwy hynny eu heithrio rhag cael eu cyfrif wrth gyfrifo capasiti'r ysgol at ddibenion derbyn disgyblion. Gall hyn roi rhyddid i ysgolion newid y defnydd o ystafelloedd sydd dros ben yn barhaol, ac i wneud gwaith addasu priodol ar gyfer eu diben newydd. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd angen i'r awdurdod derbyn, sef yr AALL neu'r ysgol, adolygu'r nifer safonol a dderbynnir i'r ysgol a, lle y bo'n briodol, gyhoeddi cynnig i leihau'r nifer i adlewyrchu'r gostyngiad yng nghapasiti'r ysgol. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo pob amrywiad o'r fath i niferoedd safonol.

### Cynllunio

**5.31** Bydd angen i ysgolion ystyried pa un a oes unrhyw oblygiadau cynllunio defnydd o dir yn deillio o'u rhaglenni arfaethedig sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

**5.32** Fel arfer bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd sylweddol. Bydd ystyr newid defnydd sylweddol yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol. Dylai cyrff llywodraethol a chyrff sylfaen gysylltu â'u hawdurdod cynllunio lleol os ydynt yn bwriadu newid y defnydd a wneir o feysydd chwarae'r ysgol, a dylent gael cyngor yr awdurdod cynllunio lleol cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio.

## Meysydd chwarae

**5.33** Diffinnir meysydd chwarae fel ‘tir yn yr awyr agored a ddarperir at ddibenion addysg gorfforol neu hamdden’. Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru am geisiadau cynllunio sy’n effeithio ar feysydd chwarae ysgolion a meysydd chwarae eraill.

## Iechyd a diogelwch

**5.34** Corff llywodraethol yr ysgol fydd yn parhau’n gyfrifol am reoli adeiladau’r ysgol yn ystod oriau ysgol a’r tu allan iddynt.

**5.35** Wrth gynnig gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol a allai effeithio ar iechyd a diogelwch aelodau o’r staff ac eraill, dylid cynnal asesiadau risg newydd. Dylai’r asesiad asesu’r risgiau tebygol i staff, disgyblion, ymwelwyr a defnyddwyr yr adeiladau.

**5.36** Dylai ysgolion ystyried ehangu unrhyw bolisiau dim ysmegu i gynnwys defnydd gan y gymuned.

**5.37** Mae’n bosibl y bydd angen diwygio trefniadau cymorth cyntaf hefyd. Pan fydd ysgolion yn caniatáu i bobl eraill ddefnyddio’r adeilad, dylent hysbysu’r defnyddwyr eraill am eu dyletswyddau o ran iechyd a diogelwch, am unrhyw faterion iechyd a diogelwch penodol (e.e. peryglon yn yr adeilad) ac am y trefniadau cymorth cyntaf.

## Diogelwch yn yr ysgol

**5.38** Gall agor yr ysgol i’w defnyddio gan y gymuned wella diogelwch ar y safle a lleihau fandaliaeth. Fodd bynnag, wrth sefydlu gweithgareddau newydd, dylid cynnal adolygiad o ddiogelwch yn yr ysgol er mwyn nodi unrhyw risgiau ychwanegol posibl.

**5.39** Pan fydd gweithgareddau yn cael eu cynnal y tu allan i oriau ysgol, mae’n bosibl y bydd angen addasu oriau agor presennol yr ysgol a’i systemau ar gyfer rheoli ymwelwyr.

**5.40** Bydd diogelwch yn haws i’w reoli os gellir gwahanu’r ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol a gweithgareddau cymunedol o brif ardaloedd yr ysgol, a’u cloi a’u diogelu ar wahân. Mewn rhai ysgolion, ceir mynediad i’r holl gyfleusterau cymunedol drwy un fynedfa a derbynfa ac mae ganddynt eu gwasanaethau eu hunain fel toiledau.

**5.41** Mae’n bosibl y bydd angen goleuadau ychwanegol os defnyddir yr ardaloedd y tu allan i oriau golau dydd. Lle y defnyddir goleuadau ychwanegol, dylid ystyried eu heffaith ar gymdogion yr ysgol.

**5.42** Os bydd ysgol yn bwriadu cynnig gweithgareddau a gwasanaethau sylweddol y tu allan i oriau ysgol, mae’n bosibl y bydd angen cyflogi staff ychwanegol.

## Diogelwch tân

**5.43** Wrth sefydlu gweithgareddau newydd, bydd angen i’r trefnwyr sicrhau y dilynir gweithdrefnau diogelwch tân allweddol:



- lle mai dim ond rhannau o'r ysgol sydd ar agor i'w defnyddio gyda'r nos neu ar benwythnosau, dylai ysgolion a threfnwyr sicrhau bod y llwybrau dianc angenrheidiol ar agor
- dylid sicrhau bod arwyddion clir i ddangos yr allanfeydd tân
- bydd angen i o leiaf un o'r trefnwyr ymhob grŵp gweithgaredd fod yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn os bydd tân ar ffyrdd i ddianc o'r adeilad
- bydd rhai grwpiau cymunedol yn dod â'u hoffer eu hunain i'r ysgol. Bydd angen i ysgolion sicrhau y caiff ei ddefnyddio'n briodol, ei fod yn gydnaws ag offer a gwasanaethau trydanol yr ysgol, a'i fod yn cydymffurfio â gofynion diogelwch
- lle ceir perfformiadau cyhoeddus, dylid dilyn y rheoliadau ar gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes. Bydd angen sicrhau bod goleuadau brys ar gael ar hyd llwybrau dianc, a dylai drysau tân fod yn weithredol. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn ofynnol i'r bobl a fydd yn gyfrifol sicrhau nad oes gormod o bobl yn bresennol a chadw eiliau yn glir. Dylent fod yn gyfarwydd â'r weithdrefn i'w dilyn os bydd tân ar llwybrau dianc

## Yswiriant

**5.44** Yn gyffredinol nid yw agor yr ysgol y tu hwnt i oriau arferol ac at ddefnydd ehangach y gymuned yn effeithio'n sylweddol ar gost yswirio eiddo. Fodd bynnag, cynghorir ysgolion i gysylltu â'u AALL, neu eu cwmni yswiriant, i drafod y gweithgareddau ar gwasanaethau y maent yn bwriadu eu cynnig.

**5.45** Mae'n bosibl y bydd sefydliadau, grwpiau a darparwyr nad ydynt yn rhan o'r ysgol yn atebol am unrhyw geisiadau a fydd yn deillio o'u gweithgareddau, felly dylai ysgolion sicrhau bod gan bob grŵp eu hyswiriant rhwymedigaeth gyhoeddus ei hun. Mae'n bosibl y caiff grwpiau a darparwyr gyda chysylltiadau cenedlaethol eu cwmpasu gan bolisi yswiriant cyffredinol y sefydliad ac, os felly, ni fyddai angen iddynt drefnu yswiriant unigol.

## Mynediad i'r anabl

**5.46** O dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (y Ddeddf), mae dyletswydd ar ysgolion, AALL a sefydliadau sy'n darparu addysg ôl-16 i beidio â thrin disgyblion neu fyfyrwyr anabl yn llai ffafriol na'u cyd-ddisgyblion. Mae hefyd yn ofynnol iddynt wneud addasiadau rhesymol i sicrhau na roddir y rheini sy'n anabl o dan anfantais sylweddol. O fis Ebrill 2004 bydd dyletswydd hefyd ar ysgolion ac AALL i gynllunio'n strategol i gynyddu mynediad i ddisgyblion anabl i adeiladau'r ysgol ac i'r cwricwlwm.

**5.47** Cwmpesir ysgolion sy'n cynnig gweithgareddau a gwasanaethau nad ydynt yn addysgol i'r gymuned ehangach gan Ran 3 y Ddeddf hefyd (mynediad i nwyddau a gwasanaethau). Yn ymarferol, mae'r dyletswyddau sy'n ymwneud â disgyblion ac aelodau o'r gymuned ehangach yn debyg.

## Cynnal a chadw

**5.48** Dylid cytuno ar gostau a chyfrifoldebau cynnal a chadw sy'n deillio o ddefnydd y gymuned o'r ysgol cyn i weithgareddau a gwasanaethau ychwanegol ddechrau.

**5.49** Fel rheol, bydd angen i gostau traul a chostau glanhau ychwanegol gael eu rhannu rhwng cyllideb y gymuned ar ysgol, yn gyfrannol â'r defnydd a wneir o'r

cyfleusterau ar offer. Dylai ysgolion ystyried y costau hyn wrth bennu taliadau ar gyfer grwpiau allanol neu ar gyfer gweithgareddau a drefnir gan yr ysgol.

**5.50** Bydd defnydd o'r ysgol gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau yn effeithio ar yr adegau lle y gellir gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr ysgol. Bydd angen i ysgolion fod yn hyblyg wrth gynllunio gwaith atgyweirio arferol gan ystyried gweithgareddau wrth drefnu amserlen ar gyfer prosiectau cynnal a chadw mwy.

**5.51** Mae'n debygol y bydd defnydd y gymuned o'r cyfleusterau yn effeithio ar y drefn rota glanhau, a dylid cymryd camau i sicrhau nad amherir ar weithgareddau craidd yr ysgol fwy nag sydd angen.

### **Adeiladau a chyfleusterau**

**5.52** O dan Ddeddfau Rhwymedigaeth Deiliaid 1957 a 1974, gallai'r corff llywodraethol a deiliaid eraill sy'n gyfrifol am reoli'r adeiladau fod yn atebol am gyflwr yr adeiladau.

**5.53** Dylai ysgolion sicrhau bod yr adeiladau yn ddiogel at y diben y'i defnyddir ar ei gyfer ac egluro na ddylid defnyddio'r adeiladau at unrhyw ddibenion eraill. Mae'n bosibl y bydd ysgolion am adolygu cynllun safle'r ysgol i weld pa mor addas ydyw i'w defnyddio gan y gymuned. Ar gyfer rhai gweithgareddau, mae'n bosibl y bydd angen i'r gymuned ddefnyddio cyfleusterau yn ystod oriau ysgol arferol. Ni ddylai mynediad olygu mynd drwy ardaloedd a gyfyngwyd at ddefnydd yr ysgol, fel ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd staff.

**5.54** Gallai hyn olygu y bydd angen i rai ysgolion ddarparu cyfleusterau ychwanegol fel toiledau, ystafelloedd newid a chyfleusterau lluniaeth. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen i ysgolion cynradd ystyried gofynion ar gyfer dodrefn a chyfleusterau storio ychwanegol.

### **Trwyddedau adloniant cyhoeddus a thrwyddedau eraill**

**5.55** Mae angen trwyddedau ar gyfer rhai gweithgareddau a gwasanaethau. Bydd angen trwydded ar ysgol sy'n cynnig y defnydd o'i hadeiladau fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol os yw'n bwriadu gwerthu alcohol. Os bwriedir cynnal cyngherddau neu berfformiadau, bydd angen trwydded adloniant cyhoeddus. Bydd y trwyddedau hyn yn pennu amodau ar gyfer nifer y bobl a fydd yn mynychu, math a chynllun y seddau, goleuadau brys a marcio allanfeydd brys.

**5.56** Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn darparu ar gyfer un system drwyddedu symlach ar gyfer adloniant a gwerthu alcohol a fyddai'n cael ei gweinyddu gan awdurdodau lleol. Bydd angen i ysgolion gael trwydded ar gyfer perfformiadau cyhoeddus o hyd ond ni fydd angen iddynt dalu ffi onid ydynt yn bwriadu gwerthu alcohol hefyd. Byddant yn gallu gwneud cais am drwydded a fydd yn parhau'n ddilys am gyfnod penodol neu fel arall am drwydded digwyddiad dros dro. Bydd angen rhoi gwybod i'r awdurdod trwyddedu ar heddlu am unrhyw weithgareddau dros dro a ganiateir.

**5.57** Dylai ysgolion ymgynghori â'u hawdurdod lleol o ran pa drwyddedau y gallai fod eu hangen, pa amodau trwyddedu sy'n berthnasol a sut i wneud cais

amdanynt. Dylai trafodaethau gyda'r awdurdod trwyddedu a chyrrff eraill sydd â diddordeb ddechrau yn gynnar yn ystod y cam cynllunio, er mwyn gallu ystyried eu gofynion.

## Polisi Trefnu Lle

**5.58** Os bydd ysgol yn bwriadu cynnig yr ysgol fel lleoliad i grwpiau lleol ar sail fasnachol, mae'n bosibl y bydd y llywodraethwyr am ystyried polisi trefnu lle. Mae rhai awdurdodau lleol yn eithrio rhai grwpiau penodol, fel pleidiau gwleidyddol mwy eithafol, rhag defnyddio ysgolion, ac mae'n bosibl y bydd ysgolion am ychwanegu eithriadau pellach i adlewyrchu amgylchiadau lleol.

## Trafnidiaeth

**5.59** Os bwriedir darparu gwasanaethau y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol neu ar benwythnosau, bydd angen i ysgolion ystyried sut y gall defnyddwyr deithio i'r ysgol ac oddi yno yn ddiogel. Nid yw darpariaeth trafndiaeth yr AALL i blant ysgol o reidrwydd yn ymestyn i weithgareddau ychwanegol fel dysgu y tu allan i oriau ysgol. Dylai ysgolion ymgynghori â'u AALL ar ddarparu trafndiaeth y tu allan i oriau ysgol.

**5.60** Gall awdurdodau lleol, cwmnïau bysys a rhieni weithio mewn partneriaeth i ddatblygu Cynlluniau Teithio i'r Ysgol i ddarparu ar gyfer mynediad cynyddol gan y disgyblion a'r gymuned.

Ymhlith y materion y dylid eu hystyried mae:

- effaith y cynnydd mewn traffig ar ddiogelwch disgyblion a'r gymuned leol, yn arbennig gyda'r nos
- darparu raciau beic i'r disgyblion a chawodydd i deuluoedd ac aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r cyfleusterau er mwyn hyrwyddo cerdded neu seiclo
- amserlennu gweithgareddau a gwasanaethau i fanteisio ar drefniadau trafndiaeth sy'n bodoli eisoes, a sicrhau lle y bo'n bosibl y caiff gweithgareddau i blant a'u rhieni eu trefnu er mwyn galluogi'r ddau grŵp i gymryd rhan ar yr un pryd.

**5.61** Mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i drefniadau trafndiaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-16. O'r flwyddyn academaidd 2004/5 ymlaen bydd yn ofynnol i AALL lunio cynlluniau i ddarparu trafndiaeth ar gyfer myfyrwyr rhwng 16 a 19 oed. Bydd angen i ysgolion ystyried y cynlluniau hyn wrth wneud trefniadau trafndiaeth ar gyfer y myfyrwyr hyn.

## Adran 6: Materion Ariannol

### Egwyddorion sylfaenol

**6.1** Mae sawl egwyddor sylfaenol ar gyfer rheoli rhaglenni ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn ariannol. Cyfrifoldeb y corff llywodraethol yw sicrhau:

- na chaiff cyfran cyllideb ddirprwyedig yr ysgol ei defnyddio i ariannu gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol, ac eithrio dysgu y tu allan i oriau ysgol i ddisgyblion yr ystyrir ei fod at ddibenion yr ysgol
- bod defnydd y gymuned o gyfleusterau'r ysgol yn ariannu ei hun drwy lifoedd arian amgen neu drwy godi tâl ar y defnyddwyr
- bod cyfrifon ar wahân yn cael eu gweithredu ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol, heb fod wedi'u cysylltu â chyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Gellir defnyddio'r gyllideb gweithgareddau cymunedol i ddarparu croesgymorthdaliadau i gyllideb ddirprwyedig yr ysgol, ond ni ellir defnyddio cyllideb ddirprwyedig yr ysgol i ddarparu cymorthdaliadau ar gyfer gweithgareddau cymunedol.

**6.2** Gallai methu â chydymffurfio â'r rheoliadau hyn arwain at ddiddymu pŵer y corff llywodraethol i reoli ei gyllideb ddirprwyedig.

**6.3** O dan gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu ysgolion, mae cyllidebau dirprwyedig ysgolion yn amodol ar archwiliad mewnol rheolaidd ac mae'r cyfrifon ar gael i'w harchwilio gan archwilydd allanol yr AALL. Mae hefyd yn ofynnol i ysgolion ddarparu tystysgrifau archwilio blynyddol a chopiau o gyfrifon ar gyfer cronfeydd gwirfoddol a phreifat sydd ganddynt ac unrhyw sefydliadau masnachu a reolir ganddynt. Ceir canllawiau yn hyn o beth yn nogfen y Comisiwn Archwilio *'Keeping your Balances: standards for financial management in schools'* (Hydref 2000) (gweler Adran 8.6 am fanylion cyswllt).

**6.4** Ar gyfer rhaglenni mwy, dylid datblygu cynllun busnes cyn sefydlu gweithgareddau a gwasanaethau, er mwyn sicrhau y gellir adennill y costau yn llawn.

**6.5** Mae AALL wrthi ar hyn o bryd yn diwygio eu cynlluniau ariannu ysgolion i gynnwys adran ar weithgareddau cymunedol. Dylai ysgolion gysylltu â'u AALL i gael gwybod am unrhyw ddarpariaethau perthnasol cyn ymgymryd â gweithgareddau o'r fath. Bydd y cynlluniau yn adlewyrchu'r ffaith mai corff llywodraethol yr ysgol fydd yn gyfrifol os bydd gweithgareddau cymunedol ysgolion yn rhedeg ar golled neu'n debygol o fod ar golled. Byddai angen trafod sefyllfa o'r fath gyda'r AALL gan naill ai rhoi cynllun adfer ar waith neu roi'r gorau i'r gweithgareddau. Ni ddylai sefyllfa o'r fath godi os oes gan yr ysgol drefniadau monitro a rheolaeth ariannol cadarn ar waith.

### Ffynonellau ariannu ar gyfer darpariaeth gymunedol

**6.6** Bydd ffynonellau ariannu yn dibynnu ar yr ardal leol a'r mathau o wasanaethau a gynigir. Bydd angen i ysgolion sicrhau bod ffynonellau ariannu digonol ar gael cyn cynllunio gwasanaethau yn fanwl.

**6.7** Mae ysgolion sydd eisoes yn cynnig rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y gymuned o'r farn ei bod yn hanfodol bod yn arloesol wrth edrych am ffynonellau ariannu. Maent yn aml yn cyfuno sawl gwahanol ffynhonnell ariannu er mwyn darparu rhaglenni cynhwysfawr.

**6.8** Yn y rhan fwyaf o achosion, cysylltir yr arian â'r broses o ddatblygu gwasanaeth neu ddarpariaeth benodol. Mae'r Cyngor Cenedlaethol-ELWa ac AALL yn darparu arian ar gyfer addysg i oedolion ac addysg barhaus. Mae Partneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gofal plant y gellir ei fforddio ar gyfer plant hyd at 14 oed. Mae'n bosibl y bydd canllaw ContinYou "Trust Fundraising for Out of School Hours Learning" yn ddefnyddiol (gweler Adran 8.3 am fanylion cyswllt).

### **Codi tâl am gyfleusterau a gwasanaethau**

**6.9** Ceir rhai egwyddorion allweddol ar gyfer codi tâl am weithgareddau a gwasanaethau ychwanegol:

- Ni ellir codi tâl ar ddisgyblion am addysg y tu allan i oriau ysgol os yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig, neu'n rhan o addysg grefyddol.
- Gellir codi tâl ar ddisgyblion am unrhyw wasanaethau addysg eraill neu wasanaethau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysg y tu allan i oriau ysgol, ond anogir ysgolion i ddarparu dysgu y tu allan i oriau ysgol i'r disgyblion am ddim. Gellir codi taliadau ychwanegol am ddarparu deunyddiau, llyfrau, offerynnau, neu offer arall.
- Gellir codi tâl ar blant eraill, eu rhieni, oedolion, teuluoedd, clybiau a busnesau am gymryd rhan mewn gweithgareddau neu wasanaethau cymunedol a drefnir gan yr ysgol, cyhyd â bod y corff llywodraethol wedi llunio datganiad o bolisi cyffredinol ar godi tâl.

**6.10** Dylai ffocws gweithgareddau cymunedol fod ar y rheini sydd o fudd uniongyrchol i ddisgyblion, teuluoedd a staff yr ysgol a'r gymuned leol, ond gall rhai gweithgareddau a gwasanaethau eraill gynhyrchu refeniw ychwanegol i'r ysgol y gellir ei ddefnyddio i ariannu mentrau cymunedol pellach, neu i ategu cyllideb ddirprwyedig yr ysgol.

**6.11** Mae'n bosibl y bydd yn well gan gyrff llywodraethol ofyn i rieni neu aelodau o'r gymuned am gyfraniadau gwirfoddol ar gyfer rhai mathau o weithgaredd. Rhaid i gyrff llywodraethol egluro at ba ddiben y defnyddir y cyfraniadau gwirfoddol ac ni ddylid trin cyfranogwyr yn wahanol os na fyddant yn barod i gyfrannu neu os na fyddant yn gallu gwneud hynny.

**6.12** Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisi eisoes ar strwythur ffioedd ar gyfer llogi ystafelloedd neu gyfleusterau chwaraeon gan ddefnyddwyr allanol, y gellir ei ddefnyddio fel y man cychwyn ar gyfer datblygu polisi ar godi tâl am weithgareddau cymunedol. Dylid cynnwys datganiad clir o gyfrifoldebau ariannol mewn cytundebau ar gyfer defnydd cymunedol cyn dechrau rhannu defnydd, er mwyn i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o'r costau tebygol.

## Costau

**6.13** Bydd llawer o weithgareddau cymunedol yn rhannu cyfleusterau, offer, a staff gyda'r ysgol. Os rhennir adnoddau, hyd yn oed pan nad eir i gostau ychwanegol, bydd angen rhannu'r holl gostau yn deg rhwng cyllideb ddirprwyedig yr ysgol a'i chyllideb gwasanaethau cymunedol. Gall gosod mesuryddion ynni a dŵr ar wahân helpu i ddyrannu costau yn gywir rhwng defnydd yr ysgol a'r gymuned. Gallai hefyd fod angen defnyddio amcangyfrifon i adlewyrchu'r gwahanol lefelau o ddefnydd gan yr ysgol a grwpiau cymunedol. Bydd angen cwmpasu'r costau canlynol:

- gwres a golau
- costau dŵr (yn arbennig ar gyfer pyllau nofio)
- offer a deunyddiau
- lluniaeth
- staffio
- glanhau
- cynnal a chadw
- traul
- rheoli'r rhaglen a chymorth gweinyddol.

**6.14** Mewn llawer o ysgolion, bydd yn bosibl lleihau costau rhedeg i'r defnyddwyr drwy sefydlu gweithgareddau a gynhelir ochr yn ochr, er mwyn i'r defnyddwyr allu rhannu costau cyfleustodau a staffio ychwanegol.

## Cynhyrchu incwm a chroesgymorthdaliadau

**6.15** Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion am annog gweithgareddau a gwasanaethau sy'n flaenoriaeth yn eu barn hwy, ond nad ydynt o bosibl yn hunan-ariannu. Gellir defnyddio gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cynhyrchu incwm i helpu i ategu rhaglenni eraill. Yn yr un ffordd, gellir gostwng y taliadau a godir ar ddefnyddwyr unigol gwasanaethau na fyddant o bosibl yn gallu talu i gymryd rhan, ond a allai elwa'n sylweddol ar y gweithgaredd neu'r gwasanaeth.

**6.16** Pan fydd yr arian a dderbynnir ar gyfer rhai gweithgareddau eisoes wedi talu costau'r ysgol yn llawn, gallai ysgolion hefyd drefnu gweithgareddau cymunedol eraill mewn gofod cyfagos fel na fydd unrhyw adnoddau gwres na golau ychwanegol yn gysylltiedig â'r defnydd hwnnw.

**6.17** Lle na fydd unrhyw gost i gyllideb yr ysgol, dylai ysgolion ddefnyddio eu disgrisiwn a pheidio â chodi tâl am y gweithgareddau a'r gwasanaethau.

**6.18** Gall ysgolion hefyd ystyried cyfnewid gwasanaethau gyda defnyddwyr o'r gymuned, er enghraifft drwy ddarparu'r defnydd o gyfleusterau'r ysgol am ddim, yn gyfnewid am hyfforddiant neu adnoddau arbenigol i ddiwallu anghenion addysgol eu disgyblion. Gellir manteisio ar y cyfle hwn i ehangu cwricwlwm yr ysgol, yn ogystal â darparu gwasanaeth i bobl leol na fyddent o bosibl yn gallu talu fel arall.

## Buddsoddiad cyfalaf

**6.19** Mae'n bosibl y bydd angen addasu neu ychwanegu at adeiladau a chyfleusterau'r ysgol er mwyn cynnal rhai gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i ysgolion nodi ffynonellau ariannu amgen, neu sicrhau y gellir cwmpasu cost y buddsoddiad cyfalaf gan y taliadau a godir ar ddefnyddwyr. Mae'n bosibl y bydd cyfleusterau newydd yn addas at ddefnydd deubwrpas. Os felly, gellir rhannu costau'r buddsoddiad cyfalaf rhwng yr ysgol a ffynonellau ariannu cymunedol.

**6.20** Mae grantiau gwella adeiladau ysgol ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf mewn adeiladau ysgol. Gall AALL gynnig gwaith i'w gyflawni gan ddefnyddio eu dyraniadau grant o fewn meini prawf cymharol fras a bennir mewn rheoliadau. Penderfyniad yr AALL fydd pa ysgolion a phrosiectau unigol a ddylai elwa gan ystyried anghenion a blaenoriaethau lleol sy'n cystadlu.

## Menter Cyllid Preifat (PFI)

**6.21** Mae adeiladau ysgolion a ddarperir o dan drefniadau PFI yn darparu ar gyfer defnydd deubwrpas o gyfleusterau rhwng ysgolion a'r gymuned.

**6.22** O dan gontractau PFI sy'n bodoli eisoes, y corff llywodraethol sy'n gyfrifol am bennu'r defnydd o'u hysgol y tu allan i oriau ysgol. Mae'r contract PFI safonol ar gyfer ysgolion yn egluro mai'r flaenoriaeth ar gyfer defnyddio cyfleusterau'r ysgol y tu allan i oriau ysgol yw dibenion addysgol yn gyntaf, wedyn defnydd gan y gymuned ac wedyn defnydd trydydd parti. Ni ddylai defnydd trydydd parti atal defnydd gan y gymuned.

**6.23** Mae contractau PFI yn gofyn am ymgynghori a rhywfaint o gyfnod rhybudd cyfyngedig, os bydd unrhyw barti am newid y trefniadau cytundebol mewn perthynas â defnyddio'r cyfleusterau. Dylai ysgolion gydweithio gyda darparwyr PFI i nodi sut y gellir datblygu gwasanaethau newydd heb effeithio ar wasanaethau sy'n bodoli eisoes.

**6.24** Mae llawer o gontractau PFI yn cynnwys taliadau cytûn i'r ysgol ddefnyddio cyfleusterau y tu allan i oriau craidd yr ysgol. Mae angen i ysgolion sicrhau y cwmpesir y taliadau hyn gan y taliadau a godir ar ddefnyddwyr o'r gymuned neu gan ffynonellau ariannu eraill y tu allan i gyllideb ddirprwyedig yr ysgol pan fydd y defnydd hwn yn ymwneud â gwasanaethau cymunedol.

## Rhyddhad treth i fusnesau

**6.25** Mae amrywiaeth o fuddiannau i fusnesau sy'n darparu cymorth i ysgolion. Gall y rhain gynnwys:

- rhyddhad treth ar gyfer cost cyflog y cyflogai neu dreuliau cysylltiedig ar gyfer staff a fenthycir i ysgolion
- dim rhwymedigaeth treth ar yr offer a wneir ganddynt, neu a brynir neu a ddefnyddir ganddynt a roddir i sefydliadau addysgol
- rhyddhad treth ar roddion neu anrhegion bach i'r ysgol.

**6.26** Gall y swyddfa dreth leol ddarparu gwybodaeth bellach i ysgolion. Gall y swyddfa dreth sy'n ymdrin â busnes unigol ddarparu cyngor ar achos unigol y busnes hwnnw. Bydd natur y rhyddhad a fydd ar gael yn dibynnu ar pa un a yw'r ysgol yn elusen ai peidio.

## **TAW**

**6.27** Mae'n bosibl na chaiff gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol a gynllunnir gan ysgolion ar gyfer disgyblion, teuluoedd a chymunedau eu heithrio rhag TAW. Mae'n bosibl y bydd yr ysgol am ymgynghori â Gwasanaeth Cyngor Cenedlaethol y Tollau Tramor a Chartref (gweler Adran 8.6 am fanylion cyswllt).

**6.28** Mae ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol yn gyfrifol am eu buddsoddiad cyfalaf eu hunain. Mae'n bosibl y bydd gan gynnig gweithgareddau a gwasanaethau ychwanegol oblygiadau ar gyfer gwasanaethau a dderbyniwyd ganddynt fel gradd sero ar gyfer TAW.



## Adran 7: Beth yw'r camau allweddol?

**7.1** Ceir rhai camau allweddol a allai fod o ddefnydd i ysgolion wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned:

- cynnal adolygiad
- ymgynghori â grwpiau allweddol
- cytuno ar nodau
- nodi a chynllunio gwasanaethau
- mesur llwyddiant.

### Cynnal adolygiad

**7.2** Bydd adolygiad o'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes yn lleol yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion lleol. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod rhaglenni wedi'u cysylltu â strategaethau cymunedol sy'n bodoli eisoes (a reolir gan awdurdodau lleol) a'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf lleol.

**7.3** Mewn sawl ardal, bydd ysgolion yn gallu defnyddio canfyddiadau gwaith ymchwil a wnaed eisoes fel ymgynghoriadau ac archwiliadau cymunedol. Mae'r rhain yn aml ar gael gan awdurdodau lleol, CCAH a phartneriaethau fel Partneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

### Ymgynghori â grwpiau allweddol

**7.4** Ymhob ysgol a chymuned ceir grwpiau allweddol y mae angen ymgynghori â hwy am weithgareddau. Dylid eu cynnwys yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod rhaglenni ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned wedi'u trefnu'n dda a'u bod yn diwallu anghenion lleol.

### Cytuno ar nodau

**7.5** Bydd cytuno ar weledigaeth gyda rhanddeiliaid ar rôl yr ysgol yn y dyfodol yn helpu i sicrhau bod rhaglenni yn diwallu blaenoriaethau lleol ac y cânt eu datblygu ar sail gynaliadwy.

**7.6** Mae'n bosibl y bydd yn ddefnyddiol i ysgolion ganolbwyntio ar gyflawni nifer fach o nodau penodol sy'n ymwneud â materion o bryder lleol fel gwella iechyd y disgyblion, lleihau troseddau neu gynnig mwy o gymorth i rieni sy'n gweithio.

**7.7** Mae creu datganiad cenhadaeth yn un ymagwedd a all alluogi llywodraethwyr, staff yr ysgol, rhieni a phartneriaid i ddiffinio a chytuno ar weledigaeth gymunedol ehangach yr ysgol.

### Nodi a chynllunio gwasanaethau

**7.8** Dylid adolygu rheolaeth ymarferol ac ariannol yr ysgol a'i hadeiladau wrth gynllunio gweithgareddau a gwasanaethau newydd. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud addasiadau a dylai ysgolion fynd i'r afael â hwy mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer eu hamgylchiadau.

**7.9** Mae'n debygol y bydd ysgolion sydd eisoes yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau yn gallu adeiladu ar yr amrywiaeth hwnnw. I ddechrau, gallai hefyd fod yn addas i ysgolion sefydlu gwasanaethau ar gyfer grwpiau sydd eisoes yn defnyddio eu cyfleusterau, er enghraifft, disgyblion a rhieni, neu ddefnyddio sgiliau ac arbenigedd penodol partneriaid.

**7.10** Dylid cydbwysu buddiannau gwasanaethau wedi'u targedu yn erbyn pwysigrwydd sicrhau bod rhaglenni yn gynhwysol. Lle y bo'n briodol, dylid rhoi'r cyfle i bob disgybl, teulu neu aelod o'r gymuned fanteisio ar wasanaethau, heb wahaniaethu ar sail anabledd, lleoliad neu gefndir ethnig.

### **Mesur llwyddiant**

**7.11** Bydd angen i ysgolion ystyried, o'r cychwyn cyntaf, pa dystiolaeth sylfaenol y dylent ei chasglu i nodi effaith gweithgareddau a gwasanaethau newydd.

**7.12** Bydd sefydlu fframwaith gwerthuso syml a chasglu data cychwynnol yn darparu gwaelodlin ac yn ei gwneud yn haws asesu effaith y gweithgareddau a'r gwasanaethau newydd a monitro'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt.

**7.13** Cyn dechrau rhaglen, dylai ysgolion ymgynghori â'r partneriaid ar gyfer pob gweithgaredd a gwasanaeth er mwyn cytuno ar nodau a thrafod sut i ddatblygu mesurau asesu priodol.

## Adran 8: Cysylltiadau Defnyddiol

### Adran 1: Cyflwyniad

Gwefan Adran Hyfforddiant ac Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru:  
[www.dysgu.cymru.gov.uk](http://www.dysgu.cymru.gov.uk)

Gellir gweld Deddf Addysg 2002 yn  
<http://www.hms.o.gov.uk/acts/acts2002/20020032.htm>. Gellir cael copi hefyd drwy ysgrifennu at The Stationery Office Ltd, PO Box 29, Norwich NR3 1GN neu ffonio 0870 600 5522.

### Adran 2: Cefndir Cyfreithiol

Ceir gwybodaeth ac arweiniad manwl ar gyfrifoldebau llywodraethwyr a phenaethiaid yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/2000 *Arweiniad ar Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gorchwyl) (Cymru) 2000*. Gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:  
[http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/circulars/3400/contents\\_e.htm](http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/circulars/3400/contents_e.htm)

Mae *A Guide to the Law for School Governors, for Community, Foundation, Voluntary Aided and Voluntary Controlled Schools* hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:  
[http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news\\_details.asp?NewsID=267](http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news_details.asp?NewsID=267)

Gellir cael gwybodaeth am statws elusennol gan y Comisiwn Elusennau yn [www.charitycommission.gov.uk](http://www.charitycommission.gov.uk) neu drwy ffonio 0870 333 0123 a chan Gyllid y Wlad yn [www.inlandrevenue.gov.uk/charities/index.htm](http://www.inlandrevenue.gov.uk/charities/index.htm)

Gellir cael gwybodaeth am brydlesu adeiladau ysgol sy'n eiddo i gyrff llywodraethol, ymddiriedolwyr a chyrff sylfaen ysgolion sylfaen a gwirfoddol yn [www.teachernet.gov.uk/schoolslandandproperty](http://www.teachernet.gov.uk/schoolslandandproperty)

Gellir cael gwybodaeth am Ddiogelu Data mewn Addysg yn [www.wales.gov.uk/subieducationtraining/contents/ims/dpape\(E\).htm](http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/contents/ims/dpape(E).htm)

Gellir cael gwybodaeth fwy cyffredinol am Ddiogelu Data gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn [www.dataprotection.gov.uk](http://www.dataprotection.gov.uk), y Llinell Wybodaeth ar 01625 545 745 neu drwy ysgrifennu at Information Commissioner, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.

### Adran 3: Gweithgareddau a Gwasanaethau

#### *Gofal plant*

Gellir cael gwybodaeth am reoleiddio a chofrestru gofal plant yn [www.wales.gov.uk/subisocialpolicystandards/index.htm](http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicystandards/index.htm). I gael gwybodaeth dros y ffôn am gofrestru gofal plant, cysylltwch â llinell gymorth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW) ar 01443 834450.

Gellir gweld y Cynllun Gweithredu Gofal Plant ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn [www.wales.gov.uk/subichildren/content/childcareactionplan.pdf](http://www.wales.gov.uk/subichildren/content/childcareactionplan.pdf)  
I gael copïau o'r Cynllun Gweithredu Gofal Plant ffoniwch: **029 2082 6379** neu anfonwch e-bost at: [nigel.woodward@wales.gsi.gov.uk](mailto:nigel.woodward@wales.gsi.gov.uk)

Gellir gweld y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer darparwyr gofal ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn [www.wales.gov.uk/subisocialpolicycaresstandards/index.htm](http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicycaresstandards/index.htm)

Gall AALL ddarparu manylion cyswllt Partneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lleol.

Gellir cael gwybodaeth gyffredinol ar y Partneriaethau yn [www.dysgu.cymru.gov.uk](http://www.dysgu.cymru.gov.uk)

Mae'r Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA) yn elusen genedlaethol ac yn sefydliad y gellir ymaelodi ag ef sy'n siarad ar ran gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn [ncmawales@ukgateway.net](mailto:ncmawales@ukgateway.net) neu drwy ffonio 029 2034 2336. Y cyfeiriad yw 4 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9LJ.

Elusen gofal plant genedlaethol yw'r Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol, sy'n hyrwyddo gofal plant ac addysg o ansawdd i bob plentyn yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Gellir cael gwybodaeth yn [www.ndna.org.uk](http://www.ndna.org.uk) neu drwy ffonio 0870 774 4244. Fel arall, ysgrifennwch at Ymddiriedolwr Cymru y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol, 106 Heol Meliden, Prestatyn, Sir Ddinbych, LL19 8RL, Ffôn 01745 856683.

Mae gan Glybiau Plant Cymru gynrychiolwyr a rhwydweithiau lleol sy'n cynnig cyngor ac arweiniad arbenigol ar sefydlu gofal plant i blant o oed ysgol (3-14 oed). Gellir cysylltu â hwy yn Bridge House, Station Road, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW, yn [info@clybiauplantcymru.org](mailto:info@clybiauplantcymru.org) neu drwy ffonio 029 2074 1000.

Mae gan Gymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn Oed Ysgol Cymru gynrychiolwyr a rhwydweithiau lleol sy'n cynnig cyngor ac arweiniad arbenigol ar gylchoedd chwarae Saesneg. Ei nod yw gwella datblygiad, gofal ac addysg plant cyn oed ysgol yng Nghymru. Gellir cysylltu â hwy yn 40 Sgw-âr Loudoun, Caerdydd, CF10 5UZ, yn [barabarap@walesppa.org](mailto:barabarap@walesppa.org) neu drwy ffonio 029 2045 1242.

Mae gan Mudiad Ysgolion Meithrin gynrychiolwyr a rhwydweithiau lleol sy'n cynnig cyngor ac arweiniad arbenigol ar gylchoedd chwarae Cymraeg. Ei nod yw gwella datblygiad, gofal ac addysg plant cyn oed ysgol yng Nghymru. Gellir cysylltu â hwy yn 145 Heol Albany, Caerdydd, CF24 3NT, yn [post@mym.co.uk](mailto:post@mym.co.uk) neu drwy ffonio 029 2043 6800.

Mae gan Chwarae Cymru gynrychiolwyr a rhwydweithiau lleol sy'n cynnig cyngor ac arweiniad arbenigol ar chwarae plant yng Nghymru. Ei nod yw dylanwadu ar bolisi, cynllunio strategol ac arfer pob asiantaeth a sefydliad sydd â diddordeb mewn chwarae plant. Gellir cysylltu â hwy yn Baltic House, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, yn [mail@playwales.org.uk](mailto:mail@playwales.org.uk) neu drwy ffonio 029 2048 6050.

Gellir cael gwybodaeth am wasanaethau gofal plant unigol sydd ar gael mewn ardaloedd lleol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yn [www.childcarelink.gov.uk](http://www.childcarelink.gov.uk). Mae

pob Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP) hefyd yn sefydlu Gwasanaeth Gwybodaeth Plant yn eu hardal.

### Dysgu gydol oes

Dylai ysgolion sydd am ymgymryd â mentrau dysgu gydol oes gysylltu â'u CCAH lleol a fydd yn eu rhoi mewn cysylltiad â'r awdurdod cynllunio ac ariannu perthnasol. Byddant hefyd yn gallu rhoi ysgolion mewn cysylltiad â'u Cydlynwyr Sgiliau Sylfaenol Lleol. Gellir cael manylion cyswllt ar gyfer CCAH gan yr AALL.

Gellir cael cyngor a chymorth cyffredinol ar ddysgu gydol oes gan:

- Y Ganolfan Datblygu Addysg Gymunedol yn [www.cedc.org.uk](http://www.cedc.org.uk) neu Ffôn: 02476 588440.
- NIACE Dysgu Cymru yn [www.niace.org.uk/niacedc](http://www.niace.org.uk/niacedc) neu Ffôn 029 20370900 neu drwy ysgrifennu i NIACE Dysgu Cymru, Llawr Gwaelod, 35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9HB.

Mae llinell cyngor dysgu genedlaethol learndirect yn cynnig gwybodaeth a chyngor diduedd ar gyfleoedd dysgu yn ogystal â gwybodaeth am gyfleoedd gyrfaedd, ariannu a materion cysylltiedig fel gofal plant. Gellir cysylltu â'r llinell gyngor ar 0800 100 900. Mae'r gwasanaeth gwybodaeth a chyngor hefyd ar gael ar-lein yn [www.learndirect.co.uk](http://www.learndirect.co.uk)

I gael gwybodaeth gyffredinol am y ffordd y caiff y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol ei hariannu a'i chynllunio, cysylltwch ag ELWa-Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar 0845 608 8066 neu drwy eu gwefan yn [www.elwa.org.uk](http://www.elwa.org.uk)

Gellir cael gwybodaeth gan Estyn drwy eu gwefan yn [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk) neu Ffôn:02920 446446 neu drwy ysgrifennu at Estyn, Llys yr Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.

Gellir cael gwybodaeth am ymchwil a rhaglenni sgiliau sylfaenol yn [www.basic-skills.co.uk](http://www.basic-skills.co.uk). Gellir cysylltu ag Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru yn y Basic Skills Agency, Commonwealth House, 1-19 New Oxford Street, London WC1A 1NU, Ffôn: 0845 602 1654, e-bost: [enquiries@basic-skills.co.uk](mailto:enquiries@basic-skills.co.uk). Gellir cael gwybodaeth am gynnydd ar y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol a'r ymgyrch hyrwyddo yng Nghymru yn [www.basic-skills-wales.org](http://www.basic-skills-wales.org)

Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol hefyd yn darparu manylion ar sut i hyfforddi fel athro Sgiliau Sylfaenol. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 0207 4054 017 neu ysgrifennwch at The Basic Skills Agency (BSA), Commonwealth House, 1-19 New Oxford Street, London WC1A 1NU. Fel arall, cysylltwch â'ch Coleg Addysg Bellach lleol neu'ch AALL.

Mae canllawiau arfer da, cyhoeddiadau a chymorth ar addysg gymunedol ar gael gan y CEDC yn [www.cedc.org.uk](http://www.cedc.org.uk) neu drwy ffonio 0247 658 8440.

Gellir gweld ymchwil ar fanteision dysgu i deuluoedd yn [www.learningbenefits.net](http://www.learningbenefits.net)

Gellir cael gwybodaeth ac adnoddau pellach yn yr adran dysgu i deuluoedd yn [www.campaign-for-learning.org.uk](http://www.campaign-for-learning.org.uk) neu drwy ffonio 020 7930 1111. Cyfeiriad y Pencadlys yw 19 Buckingham Street, London WC2N 6EF.

Gellir cael gwybodaeth bellach am Dimau Gweithredu ar gyfer Gwaith o - Tŷr Cwmnïau, Ffordd y Goron, Maendy, Caerdydd, CF14 3UW, drwy ffonio 029 2038 0436 neu drwy anfon e-bost at [jayne.dingle@employment.gov.uk](mailto:jayne.dingle@employment.gov.uk)

### **Cymraeg**

Gellir cael gwybodaeth bellach am ddysgu Cymraeg gan y Swyddog Datblygu Cymraeg i Oedolion, Cyngor Cenedlaethol-ELWa, Llys Linden, The Orchards, Tŷ Glas Avenue, Llanisien, Caerdydd CF4 5DZ neu drwy ffonio: 029 2076 1861 neu drwy anfon e-bost at [WynThomasE@elwa.ac.uk](mailto:WynThomasE@elwa.ac.uk)

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynnig cyngor ac adnoddau i helpu darparwyr gwasanaeth yng Nghymru i roi dewis o iaith i'w cwsmeriaid. Cyfeiriad y wefan yw [www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

### **Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol**

Gellir cael gwybodaeth am wasanaethau iechyd lleol gan awdurdodau lleol, meddygon teulu neu Gydylnwyr Ysgolion Iach Lleol.

Gellir cael gwybodaeth am Rwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru yn [www.healthwales.org.uk](http://www.healthwales.org.uk)

Cyhoeddwyd Arweiniad ar Addysg Rhyw a Chydberthnasau mewn Ysgolion (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 11/02) ym mis Gorffennaf 2002 a gellir ei weld yn [www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/circulars/sre-e.pdf](http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/circulars/sre-e.pdf)

Mae Parentline Plus yn darparu gwybodaeth a help i rieni a gofalwyr, gan gynnwys llinell gymorth 24 awr ar 0808 800 2222 a gwefan yn [www.parentlineplus.org.uk](http://www.parentlineplus.org.uk)

### **Gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn dosbarthu arian Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Loteri ac yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r celfyddydau ledled Cymru. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn [www.artswales.org.uk](http://www.artswales.org.uk) neu drwy ffonio 029 2037 6500. I gael gwybodaeth gyffredinol neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ysgrifennwch at: Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3NX neu anfonwch e-bost at: [info@artswales.org.uk](mailto:info@artswales.org.uk).

Gellir cael gwybodaeth am arian y loteri, a ble i wneud cais, yn [www.lotterygoodcauses.org.uk](http://www.lotterygoodcauses.org.uk) neu drwy ffonio 0845 275 000.

Rhaglen grantiau'r Loteri yw'r rhaglen Awards for All sydd wedi'i hanelu at gymunedau lleol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am Awards for All yn [www.awardsforall.org.uk](http://www.awardsforall.org.uk). Gellir cael ffurflenni cais drwy ffonio 0845 600 2040.

Cyngor Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a hamdden ac mae hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu arian y loteri i chwaraeon yng Nghymru. Gellir cael gwybodaeth am weithgareddau'r Cyngor yn [www.sports-council-wales.co.uk](http://www.sports-council-wales.co.uk) neu drwy gysylltu â Chyngor Chwaraeon Cymru, Gerddi Soffia, Caerdydd, CF11 9SW.

Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon i leuenctid yn darparu gwybodaeth i ysgolion, athrawon a Swyddogion Datblygu Chwaraeon yn [www.youthsporttrust.org](http://www.youthsporttrust.org). I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 01509 228 293 neu ysgrifennwch at Youth Sport Trust, Loughborough University, Loughborough, Leicestershire LE11 3TU.

Dylai ysgolion sydd â diddordeb mewn darparu cyfleusterau deubwrpas gysylltu â'u Hadran Gwasanaethau Hamdden lleol.

Gellir cael gwybodaeth am yr 16 o leoliadau peilot ar gyfer Partneriaethau Creadigol yn [www.creative-partnerships.com](http://www.creative-partnerships.com) neu drwy ffonio 020 7973 5133.

Gellir cael gwybodaeth a chyingor ymarferol gan yr Ymgyrch Dysgu mewn Amgueddfeydd ac Oriolau yn [www.clmg.org.uk](http://www.clmg.org.uk). I gael gwybodaeth gyffredinol neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ffoniwch 01288 354 536 neu ysgrifennwch at Nicola Nuttall, Director, CLMG, The Old Ship, Fore Street, Stratton, Cornwall EX23 9DA.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Sefydliad Cerddoriaeth leuenctid Cenedlaethol yn [www.youthmusic.org.uk](http://www.youthmusic.org.uk) neu drwy ffonio 020 7902 1060 a thrwy'r post yn National Foundation for Youth Music, 1 America Street, London SE1 ONE.

Elusen yw Learning through Landscapes sy'n ymrwymedig i wella cynllun ysgolion, y ffordd y cânt eu rheoli a'r defnydd a wneir ohonynt. Gellir cael manylion pellach am Learning through Landscapes yn [www.ltl.org.uk](http://www.ltl.org.uk) neu drwy ffonio 01962 846 258 neu drwy'r post yn LTL, 3rd Floor, Southside Offices, The Law Courts, Winchester SO23 9DL.

Gellir cael cyngor am ddatblygu ardaloedd chwarae gan y Children's Play Information Service, National Children's Bureau, 8 Wakley Street, London EC1V 7QE. E-bost [cpis@ncb.org.uk](mailto:cpis@ncb.org.uk), gwefan [www.ncb.org.uk/library/cpis/index.htm](http://www.ncb.org.uk/library/cpis/index.htm) a ffôn 020 7843 6000.

### **Materion Amgylcheddol**

Mae'n bosibl y bydd ysgolion am weithio gyda'r sefydliadau canlynol ar weithgareddau amgylcheddol:

Gellir cysylltu â Cadw Cymru'n Daclus drwy'r Swyddog Eco Ysgolion, 33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB, gwefan [www.eco-schools.org.uk](http://www.eco-schools.org.uk) neu drwy ffonio 029 2025 6767.

Gellir cysylltu â Groundwork yng Nghanolfan Amgylchedd Busnes Cymru, Main Avenue, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, Trefforest, Pontypridd, CF37 5UR, gwefan [www.groundwork.org.uk](http://www.groundwork.org.uk) neu drwy ffonio 01443 844866.

Gellir cysylltu â'r Gymdeithas Aer Glân Genedlaethol yn eu pencadlys yn 44 Grand Parade, Brighton, BN2 9QA, gwefan [www.nasca.org.uk](http://www.nasca.org.uk) neu drwy ffonio 01273 878770. Cyfeiriad cyswllt e-bost yr Adran yng Nghymru yw [brownag@caerphilly.gov.uk](mailto:brownag@caerphilly.gov.uk) a'i rhif ffôn yw 01495 2353307.

## Gwasanaethau Eraill i Blant a Phobl Ifanc

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Bartneriaethau Pobl Ifanc gan y Tim Polisi Ieuencid, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, Ffôn: 029 20801125, e-bost: Gareth.Kedward@wales.gsi.gov.uk

Gellir cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaedd gan Gyrfa Cymru yn eu gwefan [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com) neu drwy ffonio llinell gymorth [learn.direct](http://learn.direct) yn rhad ac am ddim: 0800 100 900.

Mae Rhwydwaith Cysylltiadau Addysg Busnes Cymru yn hyrwyddo gweithgareddau sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolyn a bywyd gwaith, fel clybiau dydd Sadwrn a rhaglenni mentora. Mae'r Rhwydwaith yn gweithredu fel fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a syniadau ledled Cymru. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy ffonio: 01267 228400; e-bost: [mail@careerswaleswest.co.uk](mailto:mail@careerswaleswest.co.uk) neu drwy ysgrifennu at Rhwydwaith Cysylltiadau Addysg Busnes Cymru, d/o Gyrfa Cymru'r Gorllewin, Isadran Addysg Busnes, Pensarn, Caerfyrddin SA31 2BT.

Mae Quality in Study Support yn cynnig gwasanaethau ymgynghorol a datblygiad staff i ddarparwyr rhaglenni dysgu y tu allan i oriau ysgol, yn ogystal â chynllun achredu tair haen i gydnabod yr arfer gorau yn y maes gwaith hwn. Ffoniwch 020 7522 6300 i gael rhagor o wybodaeth.

Mae ContinYou (Education Extra gynt) yn darparu cyngor, adnoddau, gwybodaeth a chymorth am ddysgu y tu allan i oriau ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth ar eu gwefan yn [www.educationextra.org.uk](http://www.educationextra.org.uk). Gallwch gysylltu â hwy drwy'r post yn ContinYou, 17 Old Ford, London E2 9PL neu drwy ffonio 020 8709 9900.

Gellir cysylltu ag Urdd Gobaith Cymru yn Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1EY, gwefan [www.urdd.org](http://www.urdd.org) neu drwy ffonio 01970 613100.

## Gwasanaethau eraill i'r gymuned

Mae Cyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu gwybodaeth am raglen Cymunedau'n Gyntaf y Cynulliad a'i waith ehangach i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru. Gellir cael gwybodaeth gan y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, e-bost: [communities.first@wales.gsi.gov.uk](mailto:communities.first@wales.gsi.gov.uk) neu gwefan: [www.wales.gov.uk/themessocialdeprivation/index.htm](http://www.wales.gov.uk/themessocialdeprivation/index.htm)

Mae'r Rhwydwaith Cymorth Cymunedau'n Gyntaf yn cynnwys wyth sefydliad o'r sector gwirfoddol cenedlaethol sy'n darparu amrywiaeth eang o help a chymorth i Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf ac eraill. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy ffonio 0800 587 8898, e-bost: [enquiries@communitiesfirst.info](mailto:enquiries@communitiesfirst.info) neu ymwelwch â'r wefan: [www.communitiesfirst.info](http://www.communitiesfirst.info)

Mae'r Uned Cymunedau Gweithgar (ACU) yn helpu i gefnogi sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr Uned Cymunedau Gweithgar, ffôn 0207 217 8400 neu [www.homeoffice.gov.uk](http://www.homeoffice.gov.uk). Ar gyfer ymholiadau ACU cyffredinol gallwch ffonio'r Llinell gymorth ar 020 7217 8400 neu ysgrifennu at Home Office Customer Information Service, 7th Floor, 50 Queen Anne's Gate, London SW1H 9AT.



Sefydlwyd y sefydliad e-ddysgu i godi arian i ddarparu technoleg gwybodaeth, dysgu a chyfathrebu i ysgolion. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn [www.elearningfoundation.co.uk](http://www.elearningfoundation.co.uk) neu drwy ffonio 01372 824 372 a thrwy'r post yn e-Learning Foundation, Dorset House, Regent Park, 297 Kingston Road, Leatherhead, Surrey KT22 7PL.

Mae'r Gymdeithas Addysg i Weithwyr (WEA) yn darparu addysg i oedolion. Caiff cyrsiau eu creu a'u cyflwyno mewn ymateb i anghenion lleol, mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol. Gellir cael rhagor o wybodaeth o'r Swyddfa Ganolog, 7 Coopers Yard, Heol Curran, Caerdydd, CF10 5NB, o'r wefan [www.swaleswea.org.uk](http://www.swaleswea.org.uk) neu [www.harlech.ac.uk](http://www.harlech.ac.uk) neu drwy ffonio 029 2023 5277.

Mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn gorff annibynnol a sefydlwyd i helpu i sicrhau hawliau sifil i bobl anabl. Y cyfeiriad yw DRC Helpline, Freepost MIDO 2164, Stratford upon Avon, CV37 9BR, gwefan [www.drc.gb.org](http://www.drc.gb.org) neu rif ffôn 08457 622633.

Cytûn (Eglwysi yng Nghymru), Heol Santes Helen, Abertawe, SA1 4AL, cyfeiriad y wefan [www.cytun.freeserve.co.uk](http://www.cytun.freeserve.co.uk).

Ceir gwybodaeth ar Wasanaethau Cymorth Cyntaf Cymunedol gan Roger Seddon, Cydlynnydd Gwasanaethau Cymorth Cyntaf Cymunedol, Y Groes Goch Gogledd Cymru, Ffordd Oxford, Llandudno, LL30 1DH. Rhif ffôn 01492 877886, rhif ffacs 01492 874605.

#### **Adran 4: Ymgynghori a Chynllunio**

Mae gwefan Estyn yn darparu gwybodaeth am arolygiadau ac adroddiadau, cyngor ac arweiniad [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk). Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ysgrifennwch at Estyn, Llys yr Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW.

Gellir cysylltu ag ELWa-Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar 0845 608 8066 neu drwy eu gwefan [www.elwa.org.uk](http://www.elwa.org.uk) neu drwy ysgrifennu at Llys Linden, The Orchards, Clôs Ilex, Llanisien, Caerdydd CF14 5DZ.

Mae 700 o gwmnïau yn aelodau o Busnes yn y Gymuned sy'n anelu at ysbrydoli, herio, ennyn diddordeb a chynorthwyo busnesau wrth wella eu heffaith gadarnhaol ar y gymdeithas yn barhaus. Gall roi cymorth i gyrff llywodraethol, penaethiaid a hwyluswyr newid. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan BITC, 4ydd Llawr, Empire House, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FN, o'r wefan [www.bitc.org.uk](http://www.bitc.org.uk) neu drwy ffonio 029 2048 3348.

#### **Adran 5: Materion Ymarferol**

Bwriedir lansio safle lloeren newydd o Dysgu Cymru yn [www.dysgu.cymru.gov.uk](http://www.dysgu.cymru.gov.uk) yn benodol ar gyfer athrawon yn ystod tymor yr Hydref 2003. Bwriedir i'r safle ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i'r proffesiwn ymhob cam yn ystod eu gyrfa, o hyfforddiant cychwynnol athrawon i brifathrawiaeth. Ei nod yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf sy'n hygyrch ac sydd wedi'i dargedu at anghenion athrawon a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Y gobaith yw y bydd y broses o gasglu'r holl wybodaeth berthnasol ynghyd gan greu un pwynt mynediad yn cyfrannu at ostyngiad ym maich gwaith y proffesiwn ac yn galluogi swyddogion y Cynulliad i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol.

Gellir cael arweiniad sy'n amlinellu'r gwiriadau cyn-penodi a gynhelir ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant o wefan Hyfforddiant ac Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru yn [www.learning.wales.gov.uk](http://www.learning.wales.gov.uk) ac o'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn [www.crb.gov.uk](http://www.crb.gov.uk). Gellir hefyd cael gwybodaeth drwy ysgrifennu at Customer Services, CRB, PO Box 110, Liverpool L3 6ZZ neu ffonio 0870 90 90 811.

Gellir cael gwybodaeth gyffredinol am dir ac eiddo ysgolion o [www.teachernet.gov.uk/schoolslandandproperty](http://www.teachernet.gov.uk/schoolslandandproperty)

Gellir cael gwybodaeth am gynlluniau ynni effeithlon ar wefan y Ganolfan Arbed Ynni a Phŵer yr Haul yn [www.ecsc.org.uk](http://www.ecsc.org.uk)

Gellir cael gwybodaeth am Fenter Llwybrau Diogel i'r Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ffonio 029 20 826502.

Gellir cael rhagor o wybodaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol am gynlluniau teithio i'r ysgol yn <http://www.localtransport.dft.gov.uk/schooltravel>

Gellir cael gwybodaeth am brosiectau ymarferol, cyngor a syniadau i annog teithio cynaliadwy gan Sustrans yn [www.saferoutestoschools.org.uk](http://www.saferoutestoschools.org.uk). Neu, gellir cael gwybodaeth drwy ffonio eu Gwasanaeth Gwybodaeth ar 0117 929 0888, neu drwy ysgrifennu at Sustrans Head Office, 35 King Street, Bristol BS1 4DZ.

Gellir cael gwybodaeth gyffredinol am gyfrifoldebau iechyd a diogelwch, rheolaeth, cofnodi damweiniau ac ati gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk) neu drwy ffonio 0870 154 5500.

Gellir cael copi o Cymorth Cyntaf i Ysgolion: Canllaw Arfer Da gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ffoniwch Malcolm Hobbs ar 029 2082 3546 neu anfonwch e-bost at [Malcolm.Hobbs@wales.gsi.gov.uk](mailto:Malcolm.Hobbs@wales.gsi.gov.uk) neu ysgrifennwch at yr Is-adran Rheolaeth Ysgolion, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ i gael copi.

Mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn cyhoeddi gwybodaeth am y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gan gynnwys y Cod Ymarfer i Ysgolion [www.drc-gb.org](http://www.drc-gb.org). I gael rhagor o wybodaeth ysgrifennwch at DRC Helpline, Freepost MID 02164, Stratford-upon-Avon CV37 9HY neu ffoniwch 08457 622 633.

## **Adran 6: Materion Ariannol**

Gellir cael gwybodaeth fanylach am faint o dâl y dylid ei godi am weithgareddau a sut y gellir ad-dalu staff am weithgareddau y tu allan i oriau ysgol yn y ddogfen 'Governor's Guide to the Law' yn: [http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news\\_details.asp?NewsID=267](http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news_details.asp?NewsID=267)

Gellir cael rhagor o wybodaeth gyffredinol am TAW i ysgolion yn <http://www.hmce.gov.uk> Gall y Gwasanaeth Cyngor Tollau Cenedlaethol hefyd roi arweiniad ar amgylchiadau unigol ysgolion drwy ffonio 0845 010 9000.

Gellir gweld cyhoeddiadau'r Comisiwn Archwilio yn <http://ww2.audit-commission.gov.uk/wales/el/publications.shtml>